------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 3 Ebrill 2014**

Amser:
**09.00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

## Agenda - Dogfennau Ategol

EBC(4)-10-14 (p.3) - Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

4 **Mentrau Cymdeithasol (11.00-12.00)** (Tudalennau 1 - 64)

# Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

Welsh Co-operative and Mutuals Commission

Digital ISBN 978 1 4734 0985 9

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | **2** |
| **Crynodeb gweithredol** | | **4** |
| **1.** | **Cyflwyniad** | **9** |
| **2.** | **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol** | **12** |
| **3.** | **Yr economi gydweithredol a chydfuddiannol** | **19** |
| **4.** | **Sicrhau newid sylweddol** | **39** |
| | Addysg ar gyfer cydweithredu | 40 |
| | Cyngor, cymorth a datblygu cwmnïau cydweithredol | 42 |
| | Cyllid buddsoddi | 48 |
| | Tir ac asedau | 50 |
| | Caffael | 51 |
| | Gwybodaeth ac arloesi | 53 |
| | Rhwydweithiau ac eiriolaeth | 54 |
| **5.** | **Cyflawni a meincnodau** | **56** |
| **Atodiad 1 – Canllaw i fodelau perchnogaeth gydweithredol a chydfuddiannol** | | **59** |

## Rhagair

Mae llawer wedi dadlau ein bod yn wynebu cyfnod o ddiffyg ymddiriedaeth helaeth a systemig yn ein cymdeithas: rhwng dinasyddion a llawer o'r prif sefydliadau sy'n rhan o gymdeithas sifil a rhwng yr unigolyn, y wladwriaeth a'r broses wleidyddol.

Mae llawer o'r diffyg hwn a awgrymir yn deillio o'r argyfwng byd-eang ym maes bancio a'r economi yn 2007, y dirywiad economaidd byd-eang parhaus a'r adferiad gwan yn y DU, a sbardunwyd gan sgandalau yn y sector bancio a methiannau corfforaethol diweddar mewn sectorau eraill, sydd wedi esgor ar amheuon helaeth ynghylch y modd y caiff ein heconomi a'n cymdeithas eu rhedeg. Mae rhai wedi dadlau bod hwn yn argyfwng moesol yn ogystal ag economaidd, ac maent yn holi sut y gallwn greu'r amodau 'rhinweddol' y mae eu hangen er mwyn i bobl a chymunedau allu ffynnu.

Er mai'r sector bancio oedd yn bennaf gyfrifol am y cwymp economaidd byd-eang yn 2007 a'r dirwasgiad a'i dilynodd, ni ddylid anghofio mai'r hyn a oedd yn gyfrifol, fwy na thebyg, am ddwysáu argyfwng bancio Prydain oedd newid statws cydfuddiannol cwmnïau cydfuddiannol a chymdeithasau adeiladu megis Northern Rock a Halifax, sy'n broses a ddisgrifiwyd gan Vince Cable fel un o'r gweithredoedd mwyaf o fandaliaeth economaidd yn yr oes fodern.

Mae'r argyfwng economaidd hwn a'i effeithiau, yn enwedig mewn rhannau o'r byd megis Cymru, wedi cyd-daro â beirniadaeth gynyddol o'r modd y mae llawer o'n cyfleustodau a'n gwasanaethau cyhoeddus, megis rheilffyrdd a dŵr, wedi bod yn gweithredu ers iddynt gael eu preifateiddio'n helaeth yn yr 1980au a'r 1990au. Yn ogystal, bydd y gostyngiad sylweddol mewn cyllid cyhoeddus yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn golygu y bydd angen i ni weithredu mewn modd dychmygus ac arloesol wrth ddefnyddio ein hadnoddau a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ogystal, mae'r amgylchedd o ran polisi economaidd a chymdeithasol wedi'i weddnewid gan newidiadau ym maes technoleg a gwell dealltwriaeth o'r modd y mae pobl yn ymddwyn mewn gwirionedd yn hytrach na syniadau economegwyr clasurol ynghylch y modd yr ydym yn ymddwyn. Fel y dywedodd Rich Bendis, Prif Weithredwr Innovation Philadelphia, "mantais o ran cydweithio, yn hytrach na mantais gystadleuol, yw'r model newydd" yn economi'r 21ain ganrif, sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Wrth ddatblygu'r syniad hwn yn ei lyfr diweddar, 'Positive Linking: How Networks Can Revolutionise the World', mae Paul Ormerod yn dadlau bod ein byd cymdeithasol a'n byd economaidd wedi'u gweddnewid gan y rhyngrwyd sydd wedi chwyldroi dulliau cyfathrebu, a bod effeithiau rhwydweithiau yn dylanwadu'n drwm ar bob lefel o'n bywyd wrth i'n cymdeithasau dyfu'n fwyfwy rhyng-gysylltiedig a dynamig. Mae Ormerod yn dadlau'n argyhoeddiadol bod yr argyfwng ariannol wedi dangos i ni bod economeg gonfensiynol yn cael ei chyfyngu'n ddifrifol gan y ffaith ei bod yn methu â deall rhwydweithiau, a bod angen i wleidyddion a busnesau fanteisio ar bosibiliadau 'cysylltiadau cadarnhaol'.

O ganlyniad, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr hinsawdd ddeallusol a gwleidyddol wedi newid yn llwyr a bod hynny wedi'i adlewyrchu yn natur y ddadl wleidyddol, wrth i ni glywed mwyfwy o drafodaethau ynghylch cyfalafiaeth 'foesol' neu gyfalafiaeth 'gyfrifol o safbwynt cymdeithasol'. Yn awr, am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, mae uniongrededd athroniaeth y farchnad rydd, neo-ryddfrydol, sydd wedi bod mor flaenllaw ym meddylfryd llywodraethau, y byd gwleidyddol a'r byd economaidd dros y deugain

mlynedd diwethaf, yn cael ei herio gan lawer. Mae'r dadrithiad eang hwn wedi arwain pobl i chwilio am ddulliau amgen, mwy moesol a mwy cyfrifol o safbwynt cymdeithasol o drefnu busnesau a gwasanaethau, yn enwedig rhai a gaiff eu rhedeg yn gydweithredol, yn gydfuddiannol neu'n ddielw.

Dyna pam y mae problemau diweddar The Co-operative Bank wedi bod yn niweidiol i ddelwedd y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol. Trychineb y stori honno yw'r ffaith bod arnom angen, yn fwy nag erioed o'r blaen, y manteision sy'n gysylltiedig â chyfrifoldeb cydfuddiannol. Mae'r sefyllfa, fodd bynnag, wedi dangos bod y sector cydfuddiannol ymhell o fod yn ddiogel rhag yr anawsterau sy'n wynebu unrhyw fusnes sy'n gweithredu mewn economi marchnad. Nid y ffaith ei fod yn 'gwmni cydweithredol' oedd gwendid The Co-operative Bank, ond y ffaith ei fod yn fanc. (Er bod The Co-operative Bank yn eiddo i The Co-operative Group, nid cwmni cydweithredol ydoedd mewn gwirionedd.) Fodd bynnag, nid yw'n ddigon i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol honni bod eu dull o redeg busnesau a gwasanaethau'n fwy moesol a chynaliadwy; rhaid hefyd iddynt ddangos hynny'n glir yn eu harferion busnes o ddydd i ddydd.

Cafodd y newid yn y ddadl ei adlewyrchu yn anerchiad cyn-Archesgob Caergaint, Rowan Williams, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2012 ynghylch y berthynas rhwng cymdeithas a chymuned. Dywedodd fod angen symud oddi wrth ragdybiaeth y dylai pob problem gael ei datrys o'r brig i lawr gan y wladwriaeth, a'r farn mai darpariaeth ganolog gan y wladwriaeth yw'r ateb i bopeth, a dywedodd mai'r her yw dod o hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng darpariaeth statudol a menter leol. Aeth Rowan Williams yn ei flaen i egluro delfryd y mudiad cydweithredol a'i draddodiad yng Nghymru sy'n cynnig dewis amgen, mwy moesol a chynaliadwy na'r modd yr ydym yn trefnu ein materion economaidd a chymdeithasol.

Mae'r Comisiwn yn rhannu'r weledigaeth honno'n gyfan gwbl, ac mae o'r farn bod cyfle hanesyddol wedi codi i sefydlu dull amgen o weithredu mewn perthynas â datblygu economaidd, polisi cyhoeddus a darparu gwasanaethau – dull sy'n seiliedig ar gydfuddiannaeth, cydweithredu a chydberchnogaeth, ac sy'n creu cyfle i sicrhau llywodraeth well a chymdeithas decach. Rydym o'r farn y gall hynny gyfrannu hefyd at y broses o adfer ymddiriedaeth yn y llywodraeth a'r modd y caiff ein heconomi a'n cymdeithas eu rhedeg.

Mae Cymru, lle ganwyd Robert Owen, un o sylfaenwyr y mudiad cydweithredol, wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r ddelfryd sy'n gysylltiedig â chwmnïau cydfuddiannol, ac mae'n parhau i wneud hynny heddiw drwy ddatblygu cwmnïau megis Glas Cymru / Dŵr Cymru a thrwy waith arloesol Canolfan Cydweithredol Cymru, sef asiantaeth fwyaf y DU ym maes datblygu mentrau cydfuddiannol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod gennym yng Nghymru y cyfle i ailystyried llawer o'r cwestiynau ynghylch sut yr ydym yn trefnu ein bywyd a chyfle i gyfrannu i'r ddadl ehangach am y dyfodol – yng Nghymru a thu hwnt. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn nid yn unig yn cyfrannu i'r ddadl ehangach honno ond hefyd yn cynnig cymorth ymarferol i ddatblygu'r weledigaeth honno.



**Yr Athro Andrew Davies**
Cadeirydd Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

# Crynodeb Gweithredol

Cafodd Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru ei sefydlu i gyflwyno argymhellion i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch tyfu a datblygu'r economi gydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru er mwyn creu swyddi a chyfoeth. Mae'r adroddiad hwn yn nodi casgliadau ac argymhellion y Comisiwn.

Wrth gyflawni ei waith, cafodd y Comisiwn dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan bron i 100 o unigolion a sefydliadau. Rydym yn hynod o ddiolchgar iddynt, oherwydd mae eu cyfraniad wedi dangos potensial y sector ac mae eu cynigion wedi bod yn sail i waith y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad nad yw dulliau confensiynol o ymdrin â thwf a datblygu economaidd yn ddigon ar eu pen eu hunain i wella lles cymdeithasol ac economaidd pobl yng Nghymru. Mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn cynnig manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol o'u cymharu â busnesau arferol. Rhaid i'r gwaith o ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol fod yn ganolog i'r broses o weddnewid tynged economaidd Cymru.

Mae'r cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer twf pellach. Fodd bynnag, er mwyn gweddnewid yr economi, mae angen i Gymru sicrhau newid sylweddol yn nifer y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol a'r busnesau eraill dan berchnogaeth gymdeithasol a geir, a sicrhau newid sylweddol yn eu perfformiad a'r effaith a gânt.

Mae ein hadroddiad yn amlinellu rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol a fydd yn gwneud cyfraniad mwy fyth i economi ffyniannus, amrywiol a chryf yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys darparu cyngor a chymorth i fusnesau newydd, ond mae'n gwneud mwy na hynny hefyd. Ei nod yw creu diwylliant ac amgylchedd polisi lle mae dulliau cydweithredol o gyflawni busnes yn ddulliau normal yn hytrach nag eithriadol. Nid yw cost y rhaglen wedi'i phennu, ac mae angen gwneud gwaith pellach ar nifer o agweddau er mwyn sicrhau bod modd eu gweithredu. Er hynny, mae'r Comisiwn o'r farn y bydd yr agweddau hynny, o'u cyfuno a'u rhoi ar waith yn gadarn, yn helpu i weddnewid economi cymdeithas a chymunedau Cymru, sy'n rhywbeth y mae angen ei wneud ar frys.

## Addysg ar gyfer cydweithredu

Dylai gwaith dysgu am werthoedd, egwyddorion a sgiliau cydweithredu gael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar system addysg Cymru. Er mwyn cyflawni hynny, mae'r Comisiwn yn argymell:

1. Y dylai ethos cydweithredol fod yn brif egwyddor drefniadol y system addysg yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hynny, dylai ysgolion fynd ati mewn modd amlwg i fabwysiadu egwyddorion a gwerthoedd cydweithredol, a allai ddigwydd yn y system ysgolion a gynhelir, gan integreiddio cydweithredu ym mhob agwedd ar yr ysgol. Dylid annog trefn lywodraethu lle ceir amryw randdeiliaid mewn ysgolion cydweithredol.
2. Dylid ymgorffori gwaith dysgu am gydweithredu, sy'n amlwg ym mhob rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid, yn y cwricwlwm

cynradd ac uwchradd. Dylai Bagloriaeth Cymru gynnwys dysgu am egwyddorion cydweithredol a chydfuddiannol a dysgu trwy'r egwyddorion hynny. Dylai'r gefnogaeth ar gyfer dysgu am gydweithredu gael ei darparu gan y consortia addysg rhanbarthol.

3. Dylid sicrhau cynnydd sylweddol mewn gwaith dysgu am fenter gydweithredol ym maes addysg uwch. Er mwyn cyflawni hynny:

   a. Dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sicrhau bod o leiaf un cymhwyster busnes lefel uwch yn cael ei ddarparu (e.e. Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes) ym maes modelau busnes cydweithredol, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael, a dylid cyflwyno'r cymhwyster yn ddelfrydol mewn amgylchedd cydweithredol.

   b. Dylai cymwysterau busnes a rheoli prif ffrwd roi'r un pwyslais ar fodelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol ag a roddir ar fentrau prif ffrwd sy'n gwneud elw.

   c. Dylai sefydliadau addysg uwch weithio gyda sefydliadau cydweithredol i archwilio'r potensial ar gyfer ysgoloriaethau a ffyrdd eraill o gydweithio.

   d. Dylai sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach hybu modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol i fyfyrwyr yn rhan o drafodaethau ynghylch gyrfaoedd a'r agenda gyflogadwyedd.

## Cyngor, cymorth a datblygu cwmnïau cydweithredol

Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid cryfhau'n sylweddol y cyngor a'r cymorth busnes a ddarperir, er mwyn hybu gwaith ffurfio a datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Dylid gwneud hynny drwy gynnig cymorth arbenigol i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol a darparu rhaglenni penodol i sector er mwyn cryfhau sectorau penodol sydd â'r potensial i dyfu. Bydd hynny'n golygu:

4. Sicrhau dyfodol rhaglenni cynhwysfawr sy'n cynnig cyngor a chymorth busnes i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.

5. Ymestyn y cymorth arbenigol sydd ar gael i helpu cwmnïau cydweithredol i dyfu a datblygu mewn sectorau penodol sydd â'r potensial i dyfu.

6. Annog cwmnïau cydweithredol sy'n bodoli eisoes i gynorthwyo cwmnïau cydweithredol newydd i ddatblygu, naill ai fel cwmnïau deillio, fel cyflenwyr neu fel mentoriaid.

7. Cael mynediad i gyngor a chymorth ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol drwy un porth ar y we – Busnes Cymdeithasol Cymru.

8. Cryfhau'r cymorth a'r cyngor i reolwyr a gweithwyr cwmnïau sy'n methu â llwyddo ond sy'n hyfyw o safbwynt economaidd, er mwyn ystyried model busnes cydweithredol a chydfuddiannol fel modd i achub y fenter.

## Cyllid buddsoddi

Mae diffyg cyllid i ddiwallu anghenion cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol o ran buddsoddi yn brif flaenoriaeth, oherwydd nid yw cyllid prif ffrwd yn aml yn briodol.

Mae'r Comisiwn yn argymell:

9. Y dylid creu cronfa o grantiau a benthyciadau – Cyllid Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru – sy'n benodol ar gyfer mentrau cydweithredol a chydfuddiannol a mentrau cymdeithasol eraill. Dylai'r gronfa gael ei gweinyddu gan gyrff cyfryngol ariannol sy'n bodoli eisoes, a dylai fod modd cael mynediad iddi trwy borth Busnes Cymdeithasol Cymru. Dylai gynnwys cyllid a glustnodwyd ar gyfer olyniaeth busnesau ac achosion lle caiff cwmnïau eu prynu gan y gweithwyr.
10. Dylai'r sawl sy'n darparu cymorth busnes gydweithio'n agos â chyllidwyr i sicrhau bod cyllidwyr yn deall modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol a bod busnesau cydweithredol a chydfuddiannol yn 'barod ar gyfer buddsoddiad' pan gaiff eu prosiectau eu cyflwyno i'r cyllidwyr.

## Tir ac asedau

Gall perchnogaeth gydweithredol ar dir ac asedau ddal gafael ar werth er budd cymunedau a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cadw hefyd. Mae'r Comisiwn yn argymell:

11. Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried deddfwriaeth i alluogi cymunedau i restru eu hasedau cymunedol a chael y cynnig cyntaf i ddod ag asedau dan berchnogaeth gymunedol. Mewn unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath, dylid ystyried cynnwys clybiau chwaraeon yn asedau cymunedol.
12. Y dylid gwneud gwaith pellach ar gloi asedau er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith.
13. Y dylai Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyllid Datblygu Cymunedol barhau i hybu gwaith datblygu Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol er mwyn buddsoddi yn y maes hwn i alluogi mwy o fuddsoddiadau cyfalaf.

## Caffael

Roedd y Comisiwn o'r farn bod dulliau anhyblyg blaenorol o ymdrin â chaffael cyhoeddus a diffyg datblygu yng nghyswllt y gadwyn gyflenwi gydweithredol wedi cyfyngu ar fynediad i farchnadoedd pwysig. Mae'r Comisiwn yn argymell:

14. Y dylid datblygu gwybodaeth arbenigol am gaffael cydweithredol yn Gwerth Cymru, a'i phrif ffrydio i arferion caffael ledled Cymru.
15. Y dylid cynnwys cyfeiriad penodol at gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn holl ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gaffael.
16. Y dylid ymdrechu'n ddiwyd i weithredu rheolau caffael diwygiedig yr Undeb Ewropeaidd a allai fod o fudd i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol maes o law.
17. Y dylai Llywodraeth Cymru a'r mudiad cydweithredol ddatblygu'r cadwynau cyflenwi cydweithredol a chydfuddiannol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau i ddefnyddwyr a gwasanaethau preifat, er mwyn agor marchnadoedd newydd ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, gan ddefnyddio'r Canllaw Ceisiadau ar y Cyd newydd.

18. Y dylid sefydlu prosiect peilot i ddangos potensial caffael cyhoeddus o ran datblygu cwmnïau cydweithredol, tebyg i brosiect Evergreen Co-operatives.

## Gwybodaeth ac arloesi

Mae gwybodaeth ac arloesi'n hanfodol i lwyddiant mentrau cydweithredol yn y tymor hir. Mewn gwlad fach a hinsawdd economaidd anodd, daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen i strategaeth arloesi Cymru groesawu a hyrwyddo'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol. Mae'r Comisiwn yn argymell:

19. Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaeth Arloesi Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn llawn, yn cymryd camau gweithredol i gynnwys cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn ei gwaith, ac yn hybu'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol wrth ddatblygu mentrau newydd.
20. Y dylid cynnwys capasiti i arloesi a lledaenu gwybodaeth yn y cymorth arbenigol i sectorau, a ddarperir i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.

## Rhwydweithiau ac eiriolaeth

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y capasiti cyfyngedig sydd yng Nghymru i ddatblygu polisi a strategaeth ar ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, hybu arfer gorau, hwyluso rhwydweithio a chynyddu dealltwriaeth o'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol. Mae'r Comisiwn yn herio'r mudiad cydweithredol a chydfuddiannol i gydweithio er mwyn cael mwy o lais, dylanwad a chapasiti i allu:

21. Datblygu capasiti ar gyfer ymchwil, strategaeth a pholisi ar ehangu'r economi gydweithredol a chydfuddiannol, a fydd yn ffynhonnell o wybodaeth economaidd ryngwladol ac a fydd yn darparu arweiniad strategol i'r mudiad yng Nghymru.
22. Creu fforwm 'arweinwyr' sy'n cynnwys arweinwyr ac entrepreneuriaid o fusnesau cydweithredol a chydfuddiannol allweddol i gynghori Gweinidogion Cymru a chynrychioli'r sector fel y bo'n briodol.
23. Hwyluso gwaith rhwydweithio a chodi ymwybyddiaeth.

Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell:

24. Y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth amlwg i fodelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol yn neddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a chodau ymarfer Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r gofyniad gorfodol sydd arni i ystyried datblygu cynaliadwy yn holl bolisïau a mentrau'r llywodraeth.

## Cyflawni a meincnodau

Mae argymhellion y Comisiwn yn becyn cydlynol o gamau gweithredu i sbarduno newid sylweddol o safbwynt dechrau a datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ar draws Cymru. Mae'r Comisiwn yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru arwain ac ysgogi'r pecyn, ac y dylai'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu gael ei reoli gan gyrff cyfryngol sy'n gweithio gyda chwmnïau cydweithredol, drwy sefydliadau cydweithredol a chydfuddiannol neu gyrff sy'n cefnogi gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol, ble bynnag y bo modd. Mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd gan fuddsoddiad gan

gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd rôl ganolog i'w chwarae o safbwynt gwireddu potensial cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.

Rydym yn argymell y dylid gwneud rhagor o waith, yn rhan o swyddogaeth ehangach sy'n ymwneud â gwybodaeth, er mwyn datblygu meincnodau mwy cadarn.

# 1. Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2012 cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei bod yn sefydlu Comisiwn i gyflwyno argymhellion ynghylch tyfu a datblygu'r economi gydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru er mwyn creu swyddi a chyfoeth.

Dyma gylch gwaith y Comisiwn[1]:

- Ystyried y dystiolaeth dros gefnogi'r sector cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru;
- Ystyried cyngor busnes cyfredol ar gyfer y sector cydweithredol a chydfuddiannol a darparu awgrymiadau ynghylch ffyrdd o'i gryfhau;
- Clustnodi meysydd penodol y gellid eu targedu ar gyfer cefnogaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru;
- Ystyried yr arfer gorau a'r gwerthusiadau sydd ar gael;
- Gosod gweledigaeth ar gyfer economi gydweithredol a chydfuddiannol Cymru;
- Clustnodi a sefydlu meincnodau;
- Darparu awgrymiadau ynghylch cyfeiriad strategol ac argymhellion ymarferol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth.

Roedd aelodau'r Comisiwn fel a ganlyn:

- Yr Athro Andrew Davies
- Nicholas Bennett, Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Cymru
- Dr Molly Scott Cato, Athro Strategaeth a Chynaliadwyedd ym Mhrifysgol Roehampton
- Y Fonesig Pauline Green, Llywydd y Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol
- David Jenkins OBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chadeirydd Canolfan Cydweithredol Cymru
- Robin Murray, London School of Economics
- Dr Ben Reynolds, Cyfarwyddwr Trilein
- Syr Paul Williams OBE, CStJ, DL, Cyn-Brif Weithredwr GIG Cymru

## Yr hyn a wnaethom

Bu'r Comisiwn yn ystyried yn ofalus iawn yr heriau niferus sy'n wynebu'r economi, y gymdeithas a'r amgylchedd yng Nghymru, sy'n amrywio o'n cymdeithas sy'n heneiddio i'r newid yn yr hinsawdd a'r pwysau sydd ar gyllid cyhoeddus ar hyn o bryd. Buom yn ystyried sut mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol mewn rhannau eraill o'r byd yn cynnig llawer iawn o fanteision dros ddulliau prif ffrwd o gyflawni busnes.

Yna, buom yn ystyried y sector cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru. Er bod y sector yn weddol gryf o gymharu Cymru â rhannau eraill o'r DU, gwelsom fod gwahaniaeth sylweddol rhwng y rôl y mae cwmnïau cydweithredol yn ei chwarae yn yr economi a'r gymdeithas yng Nghymru a'r rôl y maent yn ei chwarae mewn ardaloedd megis Trentino, Emilia Romagna neu Mondragon.

1 Datganiad ysgrifenedig gan Edwina Hart, Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, 17 Gorffennaf 2012, Sefydlu Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

Bu'r Comisiwn yn ystyried y potensial i gwmnïau cydweithredol ddatblygu ymhellach yng Nghymru, ar sail tair colofn: darparu gwasanaethau hanfodol i gartrefi, troi gwasanaethau cyhoeddus yn gwmnïau cydfuddiannol, a datblygu nwyddau a gwasanaethau y mae modd eu masnachu. Yn olaf, aethom i'r afael â'r hyn y mae angen ei wneud er mwyn sicrhau bod Cymru yn 'genedl gydweithredol'.

Wrth gyflawni ei waith, bu'r Comisiwn:

- Yn ystyried tystiolaeth a gwybodaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan ystod eang o unigolion a sefydliadau.
- Yn gwrando ar dystiolaeth lafar gan nifer o unigolion a sefydliadau ac yn cynnal cyfarfodydd un i un neu ymweliadau ag eraill.
- Yn cymryd rhan yng Nghyngres Gydweithredol 2013.

Bu Grŵp Cynghori yn cefnogi gwaith y Comisiwn, a bu Sefydliad Bevan, a Chyfarwyddwr y Sefydliad – Victoria Winckler – yn benodol, yn cynorthwyo'r Comisiwn i baratoi ei adroddiad terfynol. Mae'r Comisiwn yn hynod o ddiolchgar i bawb a gyfrannodd i'w waith.

## Beth yw cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol?

Ceir dryswch weithiau ynghylch beth yw cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Er bod sawl ffurf gyfreithiol wahanol ar gael ar gyfer cwmnïau cydweithredol neu gydfuddiannol (gweler Atodiad 1), a bod amrywiaeth o wahanol fathau o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ar gael yn dibynnu ar bwy sy'n berchen arnynt (y gweithwyr, y defnyddwyr, aelodau'r gymuned neu amrywiadau ar y rhain), mae nodwedd fwyaf cyfarwydd a diffiniol cwmni cydweithredol neu gydfuddiannol yn syml: cyfranogiad. Gyda'i gilydd, mae'r aelodau yn berchen ar eu cwmni cydweithredol, a thrwy drefniadau democrataidd maent yn cymryd rhan yn y gwaith o'i lywodraethu[2]. Mae cwmnïau cydweithredol hefyd yn cydymffurfio â chwe egwyddor arall (a nodir yn Nhabl 1), a chydnabyddir yn eang mai gweithredu'n unol â'r egwyddorion hynny, yn hytrach nag union ffurf gyfreithiol unrhyw sefydliad, sydd bwysicaf.

---

2 Y Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol (2013) Blueprint for a Co-operative Decade, t. 8. Ar gael ar: http://ica.coop/en/media/library/member-publication/blueprint-co-operative-decade-february-2013

Tabl 1: Egwyddorion cydweithredol fel y maent yn berthnasol i fentrau

| Egwyddorion cydweithredol | Y modd y maent yn berthnasol i fentrau cydweithredol |
|---|---|
| Aelodaeth wirfoddol ac agored | Gall pobl ymuno ac ymadael |
| Rheolaeth ddemocrataidd gan yr aelodau | Caiff eich llais chi ei glywed |
| Cyfranogiad economaidd gan yr aelodau | Chi sy'n rheoli'r cyfalaf |
| Hunanreolaeth ac annibyniaeth | Gyda'ch gilydd, byddwch yn eich rheoli eich hun |
| Addysg, hyfforddiant a gwybodaeth | Gallwch eich datblygu eich hun |
| Cydweithredu ymhlith mentrau cydweithredol | Gallwch fod yn fwy llwyddiannus drwy gydweithredu ag eraill sy'n gwybod sut i gydweithredu |
| Consýrn am gymuned | Gallwch wneud rhywbeth er budd eich cymuned a'r amgylchedd, hyd yn oed wrth i chi barhau i lwyddo |

Ffynhonnell: Y Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol (2013) Blueprint for a Co-operative Decade

## Ein canfyddiadau

Mae egni, llwyddiant ac arloesedd y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol sydd yng Nghymru wedi gwneud argraff fawr arnom. Nid drwy hap a damwain y bydd y rhinweddau hyn yn ymddangos; byddant yn dod i'r amlwg drwy weithio mewn modd cydweithredol a chydfuddiannol. Yn syml, pan fydd pobl yn berchen ar sefydliad ac yn ei reoli, bydd ganddynt fwy o ryddid ac awydd yn aml i ddod o hyd i atebion newydd a chreadigol i broblemau. Mae mentrau cydweithredol a chydfuddiannol yn ffordd o ddarganfod a defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd pobl, sydd fel arall yn cael eu gwastraffu'n aml, naill ai oherwydd nad yw timau rheoli'n gwrando neu oherwydd bod gweithwyr a'u sgiliau'n cael eu colli os bydd busnes yn cau.

O dai cymdeithasol a'r rhwydwaith mwyaf o fferyllfeydd manwerthu i dafarnau, siopau a chlybiau chwaraeon cymunedol, mae gan gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol y potensial i weddnewid tynged economaidd Cymru. Gall cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol greu swyddi, gwella cyrhaeddiad addysgol, darparu gofal cymdeithasol yng nghartrefi pobl a lleihau anghydraddoldeb. Maent eisoes yn sail i'r economi a'r gymdeithas mewn rhanbarthau a gwledydd ar draws y byd, ac mae modd disgwyl iddynt wneud yr un peth yng Nghymru.

Ni fydd datblygu a chryfhau cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol mewn hinsawdd economaidd anodd yn dasg hawdd. Er hynny, roedd y Comisiwn yn ymwybodol o lawer o gyfleoedd sy'n rhoi Cymru mewn sefyllfa unigryw a chryf; mae'r rownd nesaf o gyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, potensial y newidiadau i ofal cymdeithasol ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), newidiadau i wasanaethau cyhoeddus eraill, a'r newidiadau arfaethedig i reolau caffael yr Undeb Ewropeaidd i gyd yn golygu bod ein gweledigaeth ar gyfer sector cydweithredol a chydfuddiannol llewyrchus yn weledigaeth y gellir ei gwireddu. Rydym yn argymell rhaglen lawn o gamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'i gilydd, gan ein bod o'r farn mai dim ond pecyn cynhwysfawr felly o fesurau a fydd yn helpu i weddnewid economi a chymdeithas Cymru.

## 2. Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol

Gofynnwyd i'r Comisiwn bennu gweledigaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Yn rhan o'r gwaith hwnnw, bu'r Comisiwn yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r economi a'r gymdeithas yng Nghymru. Mae rhai o'r heriau a'r cyfleoedd hynny'n rhai byd-eang, megis y newid yn yr hinsawdd, diweithdra a newid demograffig, tra mae rhai eraill yn fwy dwys yng Nghymru, megis incwm isel, natur wledig a diffyg cystadleurwydd.

### Heriau

Bydd Cymru yn wynebu heriau hollol newydd yn ystod y degawd nesaf. Mae'r cyfuniad o newidiadau economaidd byd-eang, canlyniad yr argyfwng ariannol a'r pwysau ar wariant cyhoeddus, newid cymdeithasol a demograffig, y newid yn yr hinsawdd a datblygiadau cyflym ym maes technoleg yn golygu y bydd angen i bobl, llywodraeth ar bob lefel a busnesau a sefydliadau o bob math ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, gan na fydd yr hen ddulliau o weithio'n ddigon mwyach.

> "Bydd Cymru yn wynebu heriau hollol newydd yn ystod y degawd nesaf… bydd angen i bobl, llywodraeth ar bob lefel a busnesau a sefydliadau o bob math ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio."

#### Yr her economaidd

Nid yw'r model busnes traddodiadol wedi bod yn fuddiol i economi Cymru. Mae globaleiddio, y dirywiad economaidd hirfaith a'r ffaith bod gweithgarwch economaidd wedi'i ganoli yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr wedi amddifadu economi Cymru o swyddi a gwaith cynhyrchu. Mae'r canlyniad yn rhy amlwg o lawer ar ffurf lefelau eithaf uchel o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd, cyflogau eithaf isel a lefelau eithaf isel o ymchwil, datblygu ac arloesi. Mae'r anghydbwysedd o ran datblygu economaidd yn y DU yn golygu bod y bwlch o ran cynhyrchiant rhwng Llundain a de-ddwyrain Lloegr a gweddill y DU yn tyfu[3]. Mae'n annhebygol y bydd y rhagolygon ar gyfer datblygu economaidd hyd ddiwedd y degawd yn esgor ar welliant dramatig. Mae sefydliadau megis y Gronfa Ariannol Ryngwladol[4] a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd[5] yn rhybuddio ynghylch lefelau isel o dwf byd-eang am flynyddoedd i ddod, a rhagwelir y bydd economi'r DU yn tyfu'n araf ar y gorau. Hyd yn oed os gellir dechrau tyfu ac os gellir cynnal y twf hwnnw, mae'n bur annhebygol y bydd Cymru yn gallu cau'r bwlch sydd rhyngddi hi a rhannau cyfoethocaf y DU. Fel y nododd y Sefydliad Economeg Newydd:

3 Llywodraeth Cymru (2013) Stats Wales Table Econ0013: Sub-regional Gross Value Added, Welsh NUTS areas, accessed 21st October 2013. 1997: Wales = 78.1% UK GVA; 2010 Wales = 74.9% UK GVA.

4 Y Gronfa Ariannol Ryngwladol (2013) World Economic Outlook: Hopes, Realities, and Risks, Ebrill. Ar gael ar: http://www.imf.org/external/pubs/ft/weo/2013/01/

5 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2013) OECD Economic Outlook, Medi. Ar gael ar: http://www.keepeek.com/Digital-Asset-Management/oecd/economics/oecd-economic-outlook-volume-2013-issue-1_eco_outlook-v2013-1-en#page1

*Even if London were to grow at just 1 per cent a year (way below its average) Wales would have to grow at 2.5 per cent every year for the next 60 years to catch up.*[6]

Mae'r Comisiwn wedi dod i'r casgliad nad yw dulliau confensiynol o ymdrin â thwf a datblygu economaidd yn ddigon ar eu pen eu hunain i wella lles cymdeithasol ac economaidd pobl yng Nghymru. Mae angen dulliau newydd o drefnu gweithgarwch economaidd, y mae gweithio mewn modd cydweithredol a chydfuddiannol yn egwyddorion sylfaenol iddynt.

## Yr her ariannol

Cynllun chwe blynedd Llywodraeth y DU i leihau gwariant cyhoeddus yw'r cynllun mwyaf llym a welwyd ers yr Ail Ryfel Byd[7]. Mae toriadau ar wariant ym maes nawdd cymdeithasol yn effeithio ar gannoedd o filoedd o bobl yng Nghymru. Yr effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru yw toriad mewn termau real o bron i 10 y cant yn 2010/11 a 2013/14 yng Nghyfanswm y Gwariant a Reolir[8]. Rhagwelir y bydd Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn gostwng 3.7 y cant mewn termau real yn ystod y cyfnod cyllidebol rhwng 2012-13 a 2014-15[9]. Mae'n annhebygol iawn y bydd y sefyllfa'n gwella am flynyddoedd lawer, oherwydd dyma a ddywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a'r Sefydliad Llywodraethu yn ddiweddar am doriadau ar wariant cyhoeddus:

*There is more to come, for a long time to come.*[10]

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym o'r farn nad oes modd cyflwyno toriadau cyffredinol i wasanaethau cyhoeddus heb wneud niwed difrifol i'r union bobl y dylai'r gwasanaethau hynny fod yn eu helpu, ac rydym wedi dod i'r casgliad bod yn rhaid darganfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn ystyried bod gan gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol rôl hollbwysig i'w chwarae yn y broses honno, nid fel ffordd o leihau costau – rydym am bwysleisio hynny – ond fel ffordd o annog arloesi, datblygu ffynonellau newydd o incwm, a diwallu anghenion pobl, sy'n hollbwysig.

## Yr her gymdeithasol a demograffig

Wrth i wariant cyhoeddus gael ei dorri, mae'r galwadau ar wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu. Mae disgwyl i'r cynnydd arfaethedig yn nifer y bobl sydd dros 65 oed arwain at gynnydd yn y galw am ystod o wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol[11]. Yn ogystal, mae disgwyl i gynnydd yn nifer y bobl

6 Y Sefydliad Economeg Newydd (2013) Towards a Welsh Industrial Strategy, t. 7. Ar gael ar: http://www.neweconomics.org/publications/entry/towards-a-welsh-industrial-strategy

7 Brewer, M., Emmerson, C. a Miller, H. (goln) (2011) The IFS Green Budget, February 2011. Pennod 6. Ar gael ar: http://www.ifs.org.uk/budgets/gb2011/11chap6.pdf

8 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011) Cyllideb Derfynol 2011-12. Ar gael ar: http://www.assemblywales.org/cy/11-010.pdf

9 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012) Papur ymchwil ar Gyllideb Derfynol 2013-14, t. 6. Ar gael ar: http://www.assemblywales.org/cy/12-053.pdf

10 Harris, J. a McCrae, J. (2013) The 2015-16 Spending Round – A briefing note to accompany the IfG/IFS press briefing on 7 June 2013. Y Sefydliad Llywodraethu/Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Ar gael ar: http://www.instituteforgovernment.org.uk/publications/201516-spending-round

11 Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Wasanaeth Cyhoeddus a Newid Demograffig (2013) Ready for Ageing? Adroddiad Sesiwn 2012–13. Ar gael ar: http://www.publications.parliament.uk/pa/ld201213/ldselect/ldpublic/140/140.pdf

sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, megis dementia, gynyddu'r galw ymhellach[12]. Ar yr un pryd, mae'r cynnydd yn y gyfradd genedigaethau yn cynyddu'r galw am addysg a gwasanaethau plant[13]. Mae'r newidiadau demograffig hyn yn dwysáu'r pwysau sylweddol sydd eisoes ar gyllid cyhoeddus.

Yn ogystal, rhagwelir y bydd cyfraddau tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru yn cynyddu o ganlyniad i ddiwygio lles a newidiadau i drethi[14] – mae'r cyfraddau hynny wedi bod yn sefydlog ers sawl blwyddyn gan gyfateb i oddeutu chwarter poblogaeth Cymru[15]. Mae hynny'n debygol o gynyddu'r angen am ystod o wasanaethau cyhoeddus, o dai cymdeithasol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth mewn addysg.

Mae llawer o bobl hefyd yn mynnu cael mwy o ddylanwad ar y gwasanaethau cyhoeddus y maent yn eu cael. Yng Nghymru, bu'r pwyslais ar roi 'llais' yn hytrach na 'dewis', a rhoddwyd cefnogaeth sylweddol i waith ymgysylltu â'r cyhoedd mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gwaith 'cydgynhyrchu', sy'n amlwg yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector fel ei gilydd.

Ym marn y Comisiwn, mae'r cynnydd yn yr angen a'r galw am wasanaethau cyhoeddus, ynghyd â dull mwy cyfranogol o weithredu, yn gofyn am weddnewid gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen arloesi wrth ddarparu gwasanaethau, mae angen lefelau cyfranogiad uwch gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac mae angen rheolaeth ariannol lem. Yng nghyd-destun Cymru, gall cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ysgogi'r newid radical hwnnw. Fel yr esboniodd y Fforwm Datblygu Cwmnïau Cydweithredol Cymdeithasol:

> *Yr her strategol sylfaenol sy'n wynebu Cymru a lleoedd eraill yw creu patrwm o wasanaethau a systemau sydd nid yn unig yn gallu cynnal urddas ac annibyniaeth ar gyfer y sawl sydd fwyaf agored i niwed, ond sydd hefyd yn ataliol, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy o safbwynt gwleidyddol ymysg llawer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.*[16]

## Yr her amgylcheddol

Bellach, ceir tystiolaeth aruthrol bod hinsawdd y byd yn newid o ganlyniad i weithgarwch pobl[17]. Mae'r angen i leihau allyriadau carbon a gwella'r gallu i wrthsefyll effeithiau disgwyliedig y newid yn yr hinsawdd, hyd yn oed os bydd lefelau allyriadau'n gostwng, yn golygu bod angen darganfod dulliau newydd o drefnu'r economi, sy'n parchu'r amgylchedd yn hytrach na'i ecsbloetio. Mae newid y modd y caiff ynni ei

12 ibid

13 Jeffs, M. (2013) Future Pressures on Welsh Public Services: Financial, demand and other cost pressures to 2025 and a review of potential responses. Cyflwyniad i Gynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 ar 26 Medi 2013. Ar gael ar: http://www.walespublicservices2025.org.uk/new-report-by-mark-jeffs-wales-public-services-2025/

14 Llywodraeth Cymru (2012) Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 1. Ar gael ar: http://cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/120329welfarereformcy.pdf

15 Y Sefydliad Polisi Newydd (2013) Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2013. Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael ar: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/poverty-exclusion-wales-summary.pdf

16 Y Fforwm Datblygu Cwmnïau Cydweithredol Cymdeithasol, Tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 2.3

17 Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (2013) UN urges global response to scientific evidence that climate change is human-induced http://www.un.org/apps/news/story.asp/html/realfile/story.asp?NewsID=46069&Cr=climate+change&Cr1=#.UmWPQMu9KSN

gynhyrchu a'r ynni a gaiff ei ddefnyddio'n hollbwysig, ond mae sicrhau dulliau o ddefnyddio adnoddau naturiol eraill yn ofalus a'u hailddefnyddio'n bwysig hefyd.

### Yr her dechnolegol

Mae gwaith arloesi technolegol yn creu'r potensial ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau newydd, marchnadoedd newydd a gwelliannau o ran cynhyrchiant, nid yn unig i'r sawl sy'n deall y byd digidol, ond i bawb. Mae llawer o'r gwaith arloesi technolegol a wnaed yn ddiweddar yn seiliedig ar ddulliau o gydweithio a chydweithredu, sy'n galluogi pobl i weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd newydd i ddatblygu atebion arloesol, boed hynny'n ymwneud â datblygu meddalwedd cod agored (sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'n meddalwedd byd-eang), cael nifer mawr o bobl i gyllido prosiectau cymunedol, ysgogi barn y cyhoedd, neu rannu gwybodaeth â chymunedau ar-lein gan ddefnyddio dulliau a oedd yn amhosibl eu dirnad mor ddiweddar ag 20 mlynedd yn ôl[18]. Mae'r cydweithredu anffurfiol a welir ar-lein yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu strwythurau a gwerthoedd cydweithredol mwy ffurfiol.

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol bod angen i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru fanteisio i'r eithaf ar waith arloesi technolegol, ni waeth sut y digwydd hynny. Mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn eu rhinwedd eu hunain yn ddull newydd o gyflawni busnes, a allai yn ei dro annog pobl i fanteisio ar dechnoleg a datblygiadau newydd[19].

## Potensial cydweithredu

Ar draws y byd, mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn chwarae rôl bwysig mewn economïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Comisiwn yn falch o weld bod nifer y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn tyfu mewn gwledydd datblygedig a gwledydd sy'n datblygu, a bod y twf hwn yn digwydd yn gynt nag erioed o'r blaen[20]. Mae dros 1.4 miliwn o fentrau cydweithredol yn y byd, a gyda'i gilydd maent yn eiddo i un biliwn o ddinasyddion y byd ac yn perthyn i sectorau amrywiol iawn yn yr economi fyd-eang[21]. Mae gan 300 cwmni cydweithredol mwyaf y byd drosiant cyfun sy'n cyfateb i 2.5 triliwn o ddoleri America, ac mae'r cwmnïau hynny'n tyfu[22]. Mae cwmnïau cydweithredol eisoes yn dylanwadu'n gryf ar yr economi fyd-eang, ond gallant wneud rhagor eto.

18R. Murray (2010) Co-operation in the Age of Google, Co-operatives UK. Ar gael ar: http://www.uk.coop/sites/storage/public/downloads/co-operation_in_the_age_of_google_for_consultation_1.pdf

19 Scott Cato, M. (2004) The Pit and the Pendulum: A Co-operative Future for Work in the Welsh Valleys. Gwasg Prifysgol Cymru

20 Smith, S.C. a Rothbaum, J. (2013) Co-operatives in a Global Economy: Key Economic Issues, Recent Trends, and Potential for Development, Institute for the Study of Labor (IZA). Papur polisi rhif 68. Ar gael ar: http://ftp.iza.org/pp68.pdf

21 Co-operatives UK Build a Better World. http://www.uk.coop/2012/about/co-operatives-build-better-world

22 Monitor Cwmnïau Cydweithredol y Byd (2013) Exploring the Co-operative Economy 2013. Ar gael ar: http://www.euricse.eu/en/WorldCooperativeMonitor/Report2013

"Mae'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol yn cynnig manteision sylweddol dros fathau eraill o fusnesau. Maent yn gallu gwrthsefyll dirywiad economaidd yn well, maent wedi'u gwreiddio'n ddyfnach yn yr ardal leol, ac maent yn cynnig mwy o gyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol."

Mae'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol yn cynnig manteision sylweddol dros fathau eraill o fusnesau. Yn fyd-eang ac yn y DU, mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn gallu gwrthsefyll dirywiad economaidd yn well, maent wedi'u gwreiddio'n ddyfnach yn yr ardal leol, ac maent yn cynnig mwy o gyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol. Nododd y Comisiwn y dystiolaeth gymhellol sy'n dangos bod cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol a mentrau sydd dan berchnogaeth y gweithwyr yn perfformio'n well na busnesau confensiynol, hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni. Er enghraifft, mae busnesau dan berchnogaeth y gweithwyr, sydd â llai na 75 o weithwyr, yn gwneud mwy o elw (elw gros ac elw fesul gweithiwr) na busnesau nad ydynt dan berchnogaeth y gweithwyr[23].

Pan fyddant wedi'u sefydlu, mae mentrau sydd dan berchnogaeth gymdeithasol yn fwy cydnerth na mathau eraill o fusnesau. Mae dros 90 y cant o gwmnïau cydweithredol yn llwyddo i oroesi'r tair blynedd cyntaf o gymharu â 65 y cant o fusnesau confensiynol[24], ac roedd twf gwerthiant busnesau sydd dan berchnogaeth y gweithwyr yn cyfateb i 11 y cant ar gyfartaledd yn ystod rhan waethaf y dirwasgiad (2008-2009) o gymharu â 0.6 y cant ymysg mentrau nad ydynt dan berchnogaeth y gweithwyr[25].

Fel rheol, mae busnesau sydd dan berchnogaeth gymdeithasol yn gyflogwyr gwell na mathau eraill o fusnesau. Mae cwmnïau sydd dan berchnogaeth y gweithwyr yn gweld mwy o dwf yn nifer eu gweithwyr na chwmnïau eraill,[26] mae ganddynt lefelau llawer is o drosiant staff o gymharu â'r cyfartaledd[27] ac mae ganddynt gyfraddau absenoldeb is[28]. Yn ogystal, mae gweithwyr mewn cwmnïau cydweithredol yn llawer mwy bodlon yn eu gwaith na gweithwyr mewn busnesau sydd dan berchnogaeth breifat[29].

At ei gilydd, mae mwy o amrywiaeth yn perthyn i weithlu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol a mentrau cymdeithasol na busnesau prif ffrwd. Canfu arolwg Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang 2006 fod cyfran uwch o fenywod, pobl ifanc a phobl o

---

23 J. Lampel, A. Bhalla a P. Jha (2010) Model Growth: Do employee-owned businesses deliver sustainable performance? CASS Business School. Ar gael ar: http://www.johnlewispartnership.co.uk/content/dam/cws/pdfs/Resources/Model_Growth_Employee_Ownership_Report.pdf

24 Co-operatives UK (2013) Homegrown: the UK Co-operative Economy 2013. Ar gael ar: http://www.uk.coop/economy2013

25 J. Lampel, A. Bhalla a P. Jha (2010) Model Growth: Do employee-owned businesses deliver sustainable performance? CASS Business School. Ar gael ar: http://www.johnlewispartnership.co.uk/content/dam/cws/pdfs/Resources/Model_Growth_Employee_Ownership_Report.pdf

26 J. Lampel, A. Bhalla a P. Jha (2012) The Employee Ownership Advantage: Benefits and Consequences. Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/publications/employee-ownership-benefits-and-consequences

27 Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Berchnogaeth gan Weithwyr (2008) Share value: how employee ownership is changing the face of business. Ar gael ar: http://employeeownership.co.uk/publications/share-value-how-employee-ownership-is-changing-the-face-of-business/

28 Y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010) New Models of Public Service Ownership, Llundain: Y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus http://www.opm.co.uk/resources/new-models-of-public-service-ownership-a-guide-to-commissioning-policy-and-practice/

29 Ibid.

gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cymryd rhan weithredol mewn mentrau cymdeithasol nag mewn busnesau prif ffrwd[30]. Mae menywod a gweithwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o esgyn i swyddi arwain mewn mentrau cymdeithasol nag mewn mathau eraill o fusnesau[31].

Ar lefel fyd-eang, gwelwyd bod cwmnïau cydweithredol yn cyfrannu'n sylweddol at leihau tlodi drwy gynyddu mynediad at wasanaethau ariannol, trafod prisiau is ar gyfer mewnbwn, ehangu'r farchnad a dal eu gafael ar fwy o'r gadwyn werth[32].

Mae'r Comisiwn o'r farn bod cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn cynnig manteision dros fathau eraill o fentrau cymdeithasol, oherwydd bod cyfranogiad y gweithwyr, y defnyddwyr neu'r gymuned wedi'i ymgorffori yn eu strwythurau – nid yw'n elfen ychwanegol ddewisol. Maent yn cadw ac yn rhannu unrhyw warged er budd ehangach eu haelodau, ac maent wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd yn hytrach na chystadlu â'i gilydd.

> "Canfu'r Comisiwn fod achos cryf dros sicrhau bod cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn chwarae llawer mwy o ran yn economi Cymru."

Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn fwy o lawer na dull byrdymor o ddatrys y problemau economaidd diweddaraf. Mae ganddynt y potensial i fynd i'r afael â llawer o'r anawsterau strwythurol sylfaenol sydd yn economi Cymru, gan roi terfyn ar y cylch diddiwedd o fuddsoddi/dadfuddsoddi sydd wedi nodweddu gorffennol economaidd Cymru. Mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol wedi'u gwreiddio yn yr ardal leol, ac maent yn cadw elw er budd y defnyddwyr, y gweithwyr neu'r gymuned ehangach yn hytrach na bod yr elw'n cael ei dynnu oddi yno a'i ddosbarthu yn rhywle arall. Gall asedau sydd dan berchnogaeth gyhoeddus gael eu cloi er budd y cyhoedd yn hytrach na'u tynnu oddi yno er budd preifat, gan warchod a chadw buddsoddiad hirdymor. Caiff cydraddoldeb ei ymgorffori yn y strwythur sy'n perthyn i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, wrth i'r gweithwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth bennu polisïau ac arferion y sefydliad; nid yw cydraddoldeb yn rhywbeth ymylol.

Canfu'r Comisiwn fod achos cryf dros sicrhau bod cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn chwarae llawer mwy o ran yn economi Cymru. O gael y cymorth a'r symbyliad cywir, gallant gyfrannu at weddnewid economi Cymru, gan greu swyddi o ansawdd da, cynyddu cyfoeth a chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau o safon ar gyfer pobl Cymru.

## Llywodraethu

Un o wendidau sylfaenol The Co-operative Bank oedd y ffaith ei fod yn fanc, yn hytrach na'r ffaith ei fod yn 'gwmni cydweithredol'. (Yn dechnegol, nid oedd The Co-operative

30 Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2008) Social Enterprise: Making it Work for Black, Asian and Minority Ethnic Women, Llundain: Y Swyddfa Cydraddoldebau

31 Social Enterprise UK (2011) Fightback report on the state of Social Enterprise Survey 2011, Llundain: Social Enterprise UK http://www.socialenterprise.org.uk/advice-support/resources/fightback-britain-report-the-state-social-enterprise-survey-2011

32 J. Birchall ac R. Simmons (2008) The Role and Potential of Co-operatives in the Poverty Reduction Process: ESRC Research Summary, RES-155-25-0077. Swindon: ESRC. Ar gael ar http://www.esrc.ac.uk/my-esrc/grants/RES-155-25-0077/read

Bank yn gwmni cydweithredol, er ei fod yn eiddo i The Co-operative Group.) Fel banc, roedd yn dioddef o lawer o wendidau gweddill sector gwasanaethau ariannol y DU, gan gynnwys y ffaith bod ganddo system reoleiddio wan ac aneffeithiol, ac yn enwedig rôl yr hen Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Er hynny, mae problemau The Co-operative Bank yn atgyfnerthu barn gref y Comisiwn bod yn rhaid i ddulliau llywodraethu cadarn, tryloyw ac effeithiol fod wrth wraidd unrhyw sefydliad cydweithredol neu gydfuddiannol cynaliadwy.

Gellir dadlau'n argyhoeddiadol mai'r hyn sy'n cysylltu methiant byd-eang y sector bancio yn 2007/08, gan gynnwys problemau diweddar The Co-operative Bank, â methiannau lleol mewn gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru yw diffyg atebolrwydd a thryloywder effeithiol wrth wneud penderfyniadau, sydd yn ei dro'n adlewyrchu methiannau difrifol o safbwynt llywodraethu corfforaethol.

Mae'r Comisiwn o'r farn na ddylai gwaith llywodraethu effeithiol fod yn elfen ymylol neu'n rhan o broses ticio blychau; yn hytrach dylai fod yn elfen ganolog o ddulliau gweithredu iach sefydliad cynaliadwy. Mae llywodraethu'n mynd i wraidd y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol, gan mai'r union reswm dros fodolaeth sefydliadau o'r fath yw'r ffaith eu bod yn seiliedig ar gydaelodaeth a chydberchnogaeth.

Yr her yw sut i gyfuno'r egwyddor hon o gydberchnogaeth a chydaelodaeth â dulliau llywodraethu cadarn, tryloyw ac effeithiol. Mewn sefydliadau mawr yn enwedig, rhaid cael 'tensiwn creadigol' rhwng buddiannau cydfuddiannol yr aelodau a'u gallu i gydbwyso a dwyn i gyfrif y modd y caiff y busnes ei redeg gan y tîm rheoli gweithredol. Er enghraifft, mae aelodau anweithredol annibynnol wedi bod yn aelodau o Fyrddau rhai cwmnïau cydfuddiannol mawr megis Nationwide ers amser maith, er mwyn helpu i herio'r modd y caiff y busnes ei redeg a chraffu ar y busnes yn fwy helaeth.

Gwers arall i'w dysgu o'r sector cydfuddiannol a'r sector corfforaethol preifat yw nad maint ddylai fod yn brif faen prawf wrth ystyried twf busnes. Unwaith eto, y wers a ddysgwyd o sefyllfa The Co-operative Bank yw mai'r prif ffactor yng nghwymp y banc oedd y ffaith iddo geisio ysgwyddo dyled wenwynig cymdeithas adeiladu Britannia a cheisio ad-drefnu swyddogaethau swyddfa gefn y ddau sefydliad ar yr un pryd. Rydym o'r farn bod twf naturiol, yn hytrach na thyfu drwy gaffael, yn aml yn fwy cynaliadwy.

Mae'r Comisiwn hefyd o'r farn bod angen i'r sector ddysgu sut i'w drefnu ei hun yn fwy effeithiol unwaith yn rhagor. Dyna pam yr ydym yn rhoi pwys yn yr adroddiad hwn ar ddatblygu a hyfforddi arweinwyr effeithiol ar gyfer y mudiad, sydd hefyd yn cydnabod bod dulliau llywodraethu corfforaethol effeithiol yn angenrheidiol.

## Casgliad

Mae'r heriau economaidd, ariannol, cymdeithasol a thechnolegol sy'n wynebu Cymru yn enfawr, ac ni ellir gorbwysleisio'r potensial sydd ganddynt i gael effaith andwyol ar bobl yng Nghymru. Mae'r Comisiwn o'r farn nad yw'r canlyniadau'n anochel. Mae modd ac mae'n rhaid cymryd camau i weddnewid yr economi a'r gymdeithas. Y model cydweithredol a chydfuddiannol ar gyfer menter yw'r dull delfrydol o symud y gwaith gweddnewid hwn yn ei flaen.

# 3. Yr Economi Gydweithredol a Chydfuddiannol

Mae sector cydweithredol a chydfuddiannol llewyrchus yn bodoli eisoes yng Nghymru, ac mae'n amrywio o fusnesau sy'n dyddio'n ôl i wreiddiau'r mudiad cydweithredol i fusnesau cymunedol newydd a busnesau sydd wedi deillio o wasanaethau tai awdurdodau lleol. Wrth ystyried meysydd posibl lle gallai'r sector dyfu, rydym wedi ystyried gwasanaethau a ariennir gan gyllid cyhoeddus yn ogystal â'r sector masnachol traddodiadol.

## Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol yng Nghymru

Mae cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 1840au. Cynyddodd eu niferoedd yn ystod gweddill y 19eg ganrif ac i mewn i'r 20fed ganrif, ac roeddent yn darparu ystod eithriadol o wasanaethau a oedd yn amrywio o wasanaethau'n ymwneud ag angladdau i wasanaethau'n ymwneud â bwyd, llogi ceir, trin gwallt, darparu gofal optegol, golchi dillad a bancio. Daeth cydweithredu'n rhan ganolog o ddiwylliant y gymuned leol, gyda chymdeithasau lleol yn cefnogi agweddau niferus ar fywyd cymdeithasol a diwylliannol[33]. Mae llawer o gyrff cyhoeddus Cymru wedi deillio o gydweithredu, o'r GIG a phrifysgolion i lyfrgelloedd Cymru a'i chlybiau gweithwyr.

Mae'r diwylliant o gydweithio yn parhau mewn llawer o gymunedau heddiw. Dywedodd Co-operatives UK wrth y Comisiwn fod Cymru yn genedl gydweithredol, a chyfeiriodd at arolwg a oedd yn dangos bod 86 y cant o bobl yng Nghymru yn dweud eu bod yn ceisio cydweithredu ag eraill ym mhob agwedd ar fywyd, ac mai 18 y cant yn unig o bobl sy'n anghytuno â'r datganiad bod y rhan fwyaf o bobl yn cydweithredu gan amlaf[34].

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu bod 446 o gwmnïau cydweithredol yng Nghymru sy'n aelodau o Co-operatives UK[35]. Ceir mwy o lawer o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol nad ydynt yn aelodau ac y ceir llai o wybodaeth amdanynt. Mae nifer y cwmnïau sy'n aelodau o *Co-operatives UK* bron i 50 y cant yn fwy nag y gellid ei ddisgwyl o ystyried poblogaeth Cymru yn unig[36]. Mae can aelod mwyaf *Co-operatives UK* yn cynnwys un ar ddeg o gwmnïau sydd yng Nghymru (Tabl 2), sydd ddwywaith gymaint â'r nifer y gellid ei ddisgwyl o ystyried poblogaeth Cymru yn unig[37].

---

33 A. Burge (2012) Looking Back Towards a Welsh Co-operative Future? Journal of Co-operative Studies, Cyfrol 45, Rhif 3 (Rhif 136), Gaeaf 2012

34 Co-operatives UK, Tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 3.12

35 Co-operatives UK (2013) Homegrown: the UK Co-operative Economy 2013 http://www.uk.coop/economy2013

36 Nifer y cwmnïau cydweithredol sydd yn y DU = 6,169. Mae gan Gymru 5% o boblogaeth y DU. 5% o gwmnïau cydweithredol y DU (5% x 6,169) = 308

37 Co-operatives UK (2013) Homegrown: the UK Co-operative Economy 2013 http://www.uk.coop/economy2013

Tabl 2: Cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru

| Enw | Safle yn y DU | Trosiant (diweddaraf) |
|---|---|---|
| Cartrefi RCT | 41 | £44,169,000 |
| Amaethwyr Clynderwen a Cheredigion | 43 | £42,159,746 |
| Hufenfa De Arfon | 46 | £33,788,863 |
| Tai Cymunedol Bron Afon | 47 | £32,937,000 |
| Amaethwyr Caerfyrddin a Phumsaint | 57 | £23,791,769 |
| Dulas Ltd | 59 | £23,000,000 |
| Hay and Brecon Farmers Ltd | 67 | £18,072,989 |
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 70 | £16,085,000 |
| WFS Border Ltd | 85 | £11,264,365 |
| Cymdeithas Tai Gogledd Cymru | 87 | £10,701,000 |
| Welsh Bakers Buying Group Ltd | 92 | £10,128,942 |

Ffynhonnell: Co-operatives UK (2013) Homegrown: the UK Co-operative Economy 2013 tt. 26-31

Ceir llawer o sefydliadau cydfuddiannol eraill hefyd sy'n amrywio o gymdeithasau adeiladu mawr megis cymdeithasau adeiladu Principality, Sir Fynwy ac Abertawe i gymdeithasau tai megis Cymdeithas Tai Taf a Grŵp Gwalia, 21 o undebau credyd[38], nifer o glybiau cefnogwyr, nifer o ymddiriedolaethau tir cymunedol a nifer mawr o glybiau cymdeithasol.

Yn ogystal, mae gan nifer o gwmnïau cydweithredol ar lefel y DU bresenoldeb amlwg iawn yng Nghymru. Mae'r cwmnïau hynny'n cynnwys dau brif gwmni cydweithredol y DU, sef The Co-operative Group a John Lewis Partnership, yn ogystal â chwmnïau cydweithredol llai o faint megis Shaw Healthcare. Er enghraifft, dywedodd The Co-operative Group wrthym ei fod, yng Nghymru:

- Yn rhedeg 154 o siopau bwyd
- Yn rhedeg 108 o fferyllfeydd, sef y rhwydwaith mwyaf o fferyllfeydd cymunedol
- Yn rhedeg 17 cangen o The Co-operative Bank ledled Cymru a bod ganddo Ganolfan Bancio Corfforaethol yng Nghaerdydd
- Yn rhedeg 57 cangen o The Co-operative Funeralcare.

Er gwaethaf cryfderau'r sector cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru, mae gan y sector rai gwendidau hefyd. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn fach ac yn ganolig eu maint, ac mae rhai ohonynt mewn sectorau economaidd sydd dan bwysau sylweddol, megis y sector amaethyddiaeth, y sector tafarnau a'r sector manwerthu lleol. Roedd trosiant y cwmnïau cydweithredol sy'n aelodau o Co-operatives UK ac sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru yn cyfateb i £1.54 biliwn yn 2012[39], sef tua 1.6 y cant o gyfanswm trosiant busnesau yng

38 Gwefan Llywodraeth Cymru http://cymru.gov.uk/topics/housingandcommunity/regeneration/debt/affordcredit/?lang=cy darllenwyd ar 19 Hydref 2013

39 Heb gynnwys cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ar lefel y DU sy'n bresennol yng Nghymru e.e. The Co-operative Group

Nghymru[40]. Er bod y ffigur hwn yn amcan rhy isel o gyfraniad pob cwmni cydweithredol a chydfuddiannol, mae'n wirioneddol fach o gymharu Cymru â rhanbarthau megis Emilia Romagna yn yr Eidal – mae Tabl 3 yn dangos cymaryddion allweddol rhwng Cymru a'r rhanbarth hwnnw.

Tabl 3: Cymaryddion Allweddol – Cymru ac Emilia Romagna

| Enw | Cymru | Emilia Romagna |
|---|---|---|
| Poblogaeth | 3.07 miliwn[41] | 4.45 miliwn[42] |
| Incwm y pen ar ffurf % o gyfartaledd UE27 | 79.8[43] | 127.2[44] |
| Nifer y cwmnïau cydweithredol | 446[45] | 15,000[46] |
| Nifer y gweithwyr mewn cwmnïau cydweithredol | 7,000[47] | 144,280[48] |
| Cyfraniad cwmnïau cydweithredol i'r economi | 1.6% o drosiant busnesau[49] | 37% o'r CMC rhanbarthol[50] |

Rhywbeth sy'n bwysicach na ffurf gyfreithiol cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yw'r angen iddynt gydymffurfio â saith egwyddor cydweithredu. Cynhaliodd y Comisiwn ymchwil i gadarnhau i ba raddau yr oedd cwmnïau cydweithredol yng Nghymru yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion hynny[51], a gwelodd fod cwmnïau cydweithredol yn sefydliadau a gaiff eu sbarduno i raddau helaeth gan werthoedd, a bod eu gwerthoedd yn cyd-fynd â'r egwyddorion cydweithredol a gydnabyddir yn rhyngwladol, er nad ydynt o reidrwydd yn union yr un fath â hwy. At ei gilydd, roedd cwmnïau cydweithredol yn cydymffurfio'n helaeth â'r egwyddorion, a'r egwyddorion y cydymffurfiwyd â hwy amlaf bob amser oedd y rhai a oedd yn ymwneud â hunanreolaeth ac annibyniaeth a chyfranogiad democrataidd gan yr aelodau. Dim ond 17 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn cydymffurfio bob amser â'r egwyddor a oedd yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant a gwybodaeth, a dim ond 32 y cant a oedd yn cydymffurfio bob amser â'r egwyddor a oedd yn ymwneud â chydweithredu â chwmnïau cydweithredol eraill.

---

40 Llywodraeth Cymru – StatsCymru – Tabl Econ0045: Detailed size analysis of business, Wales and UK, darllenwyd ar 19 Hydref 2013. Cyfanswm trosiant busnesau yng Nghymru yn 2012 = £94,554 miliwn. Cafodd trosiant cwmnïau cydweithredol ar ffurf canran ei gyfrifo fel a ganlyn: £1,540 miliwn / £94,554 miliwn x 100 = 1.6.

41 Llywodraeth Cymru (2013) Bwletin Ystadegol 66/2013 – 2012 Mid-year Population Estimates for Wales

42 Tablau data rhanbarthol Eurostat (2011)

43 Eurostat (2012) Regional GDP per capita in 2009: seven capital regions in the ten first places, Datganiad i'r wasg 13 Mawrth. Ar gael ar: http://epp.eurostat.ec.europa.eu/cache/ITY_PUBLIC/1-13032012-AP/EN/1-13032012-AP-EN.PDF

44 Op. cit.

45 Co-operatives UK (2013) Homegrown: the UK Co-operative Economy 2013 http://www.uk.coop/economy2013

46 J. Restakis (dim dyddiad) The Emilian Model – Profile of a Co-operative Economy, British Colombia Co-operative Association http://bcca.coop/sites/bcca.coop/files/u2/ER-ProfileofCoop.pdf

47 Canolfan Cydweithredol Cymru (2012) Mentrau Cydweithredol yn Economi Cymru http://www.walescooperative.org/index.php?cID=399&cType=document

48 T. Menzani a V. Zamagni (2010) Co-operative Networks in the Italian Economy, Enterprise & Society, Cyfrol 11, Rhif 1, Mawrth 2010, tt. 98-127 (data ar gyfer 2001)

49 Canolfan Cydweithredol Cymru (2012) Mentrau Cydweithredol yn Economi Cymru http://www.walescooperative.org/index.php?cID=399&cType=document

50 T. Menzani a V. Zamagni (2010) Co-operative Networks in the Italian Economy, Enterprise & Society, Cyfrol 11, Rhif 1, Mawrth 2010, tt. 98-127 (data ar gyfer 2006)

51 L. Burnett (2013) Co-operatives and Mutuals in Wales: Adherence to the Recognised Principles of the Co-operative Movement. Ymchwil ar ran y Comisiwn

Mae sector cydweithredol a chydfuddiannol presennol Cymru yn darparu sylfaen gref ar gyfer datblygu mentrau cydweithredol newydd.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gall pwysau economaidd olygu bod rhai egwyddorion yn cael llai o flaenoriaeth, ond mae o'r farn bod addysg a chydweithredu ag eraill yn hollbwysig er mwyn datblygu'r sector. Gallai dirywiad ddechrau drwy esgeuluso addysg ac esgeuluso cydweithredu.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod sector cydweithredol a chydfuddiannol presennol Cymru yn darparu sylfaen gref ar gyfer datblygu mentrau cydweithredol newydd (gweler Ffigur 1).

Nododd y Comisiwn ddwy her: yn gyntaf, yr angen i sicrhau bod y sector cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn tyfu nes cyrraedd ei fàs critigol, a fydd yn ei alluogi i'w gynnal ei hun, ac yn ail, yr angen i ddefnyddio egni, arbenigedd ac adnoddau cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol presennol a newydd er mwyn sicrhau bod y sector yn datblygu ymhellach, yn gyflym ac yn llwyddiannus.

Ffigur 1: Cwmnïau cydweithredol yn sbarduno twf

Mae **busnesau mawr cydweithredol, busnesau cydfuddiannol a busnesau sydd dan berchnogaeth y gweithwyr**, megis The Co-operative Group, yn fodd ardderchog i ehangu a datblygu mentrau cydweithredol. Mae ganddynt yr adnoddau, yr arbenigedd a'r ymrwymiad – yn ogystal â grym prynu sylweddol – a allai helpu i gynhyrchu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol newydd o bob math.

Mae **cymdeithasau tai cydfuddiannol Cymru** sy'n gwario £740 miliwn, y mae 80 y cant ohono'n aros yng Nghymru, yn adnodd sylweddol ar gyfer ehangu'r sector cydweithredol.

Mae **cwmnïau cydweithredol defnyddwyr**, megis clybiau cefnogwyr ac undebau credyd, yn darparu llawer o aelodau, er bod eu dylanwad economaidd yn llai, at ddiben meithrin diddordeb yn y model busnes cydweithredol a chydfuddiannol.

Mae **cwmnïau cydweithredol sydd dan berchnogaeth y gweithwyr**, megis Aber Instruments, Primepack a Dulas, yn dangos bod y model hwn yn gallu bod yn berthnasol mewn ystod o sectorau, a bod cyfleoedd i'r gweithwyr brynu'r cwmnïau pan fydd eu perchnogion yn ymddeol yn arbennig o bwysig.

O safbwynt sefydliadol, nid yw **Dŵr Cymru** yn gwmni cydweithredol na chydfuddiannol, ond mae'n rhannu llawer o'r cryfderau sy'n gysylltiedig â chydweithredu ac mae'n dangos sut y gellid trefnu cwmnïau cyfleustodau eraill sy'n gwmnïau mawr.

Mae **microgwmnïau cydweithredol**,megis cwmnïau bwyd cydweithredol, siopau a thafarnau cymunedol a chwmnïau cydweithredol ym maes ynni a thai, yn dangos bod brwdfrydedd ac ymrwymiad i ddechrau mentrau newydd o bob math.

## Potensial i dyfu

Nododd y Comisiwn fod busnesau cydweithredol a chydfuddiannol ym mron pob un o sectorau'r economi yng Nghymru, o'r sector amaethyddiaeth i sector y celfyddydau, o'r sector ynni i'r sector peirianneg, ac o'r sector gofal cymdeithasol i'r sector clybiau chwaraeon. Nid oes unrhyw reswm pam na all modelau busnes cydweithredol neu gydfuddiannol ffynnu mewn unrhyw fath o weithgarwch economaidd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bendant nad cwmnïau cydweithredol yw'r ateb i fusnesau nad ydynt yn hyfyw o safbwynt economaidd, ni waeth pa sector y maent yn perthyn iddo.


Roedd y Comisiwn yn cytuno â thystiolaeth ysgrifenedig Canolfan Cydweithredol Cymru, a oedd yn nodi rhai amgylchiadau lle mae cwmnïau cydweithredol yn fwy tebygol o ffynnu, sef amgylchiadau:

- Lle gall cynnwys y rhanddeiliaid ychwanegu gwerth a chynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaeth neu gynnyrch.
- Lle mae defnyddwyr posibl gwasanaeth yn teimlo cysylltiad emosiynol cryf â'r gwasanaeth hwnnw ac yn teimlo'n frwd ynghylch cymryd rhan yn y gwaith o'i lywodraethu.
- Lle gall defnyddwyr / cymunedau chwarae rôl yn y gwaith rheoleiddio / cydreoleiddio er mwyn sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal.
- Lle mae tynnu elw allan o gwmni'n cael effaith negyddol ar y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth neu'r cynnyrch.
- Lle ceir dymuniad i fuddsoddi unrhyw elw mewn busnesau cydweithredol newydd.
- Lle mae masnachu rhwng cwmnïau o fudd i bawb dan sylw.

Er y gall yr amodau hyn ymddangos mewn unrhyw sector economaidd, maent yn fwy tebygol o ymddangos mewn rhai sectorau. Mae'r Comisiwn wedi nodi potensial i ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol mewn tair colofn gyffredinol (**Ffigur 2**):

- Nwyddau a gwasanaethau hanfodol i gartrefi
- Troi gwasanaethau cyhoeddus yn gwmnïau cydfuddiannol
- Nwyddau a gwasanaethau eraill.

Ffigur 2: Potensial i ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol




## Nwyddau a gwasanaethau hanfodol i gartrefi

Mae'r Comisiwn o'r farn y gall cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol wella bywydau pob dydd pobl yn ogystal â chreu swyddi cynaliadwy, drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Mae tai, ynni a bwyd yn cyfrif am 29 y cant o wariant cartrefi sydd ag incwm canolrifol ac yn cyfrif am 39 y cant o wariant y cartrefi hynny sydd â'r incwm lleiaf[52]. Mae cludiant a hamdden yn cyfrif am 26 y cant arall o wariant cartrefi sydd ag incwm canolrifol ond yn cyfrif am gyfran is (18 y cant) o wariant y cartrefi tlotaf. Yn syml, mae'r pum sector economaidd hyn yn cyfrif am dros hanner holl wariant cartrefi.

Gallai cwmnïau cydweithredol helpu i gadw prisiau nwyddau a gwasanaethau mor isel ag sy'n bosibl, ac ailddefnyddio unrhyw arian sydd dros ben er budd y defnyddwyr, y gweithwyr neu'r gymuned yn hytrach na'i ddosbarthu ymhlith rhanddeiliaid sydd ymhell i ffwrdd.

### Tai

Cydnabu'r Comisiwn y potensial sylweddol iawn ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ym maes tai. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig cydfuddiannol Cymru eisoes yn chwarae rôl sylweddol: mae aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru yn darparu dros 153,000 o gartrefi ar draws Cymru ar gyfer 15 y cant o boblogaeth Cymru, maent yn cyflogi 7,500 o bobl yn uniongyrchol a bu iddynt wario dros £850

52 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012) Family Spending, 2012 Edition, Tabl 3.2 'Household expenditure by gross income decile group, 2011'. Ar gael ar: http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-267317

miliwn yn economi Cymru yn ystod 2011/12. Yn ogystal, ceir modelau eraill, llai cyffredin ar gyfer tai cydweithredol.

Nododd y Comisiwn dri maes lle gallai rôl cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ym maes tai gael ei ddatblygu ymhellach.

Yn gyntaf, gallai cymdeithasau tai cydfuddiannol cymunedol sy'n bodoli eisoes ehangu eu portffolios tai a datblygu gwasanaethau deillio dan berchnogaeth gydfuddiannol sy'n ymwneud â rheoli a datblygu tai, megis gwasanaethau cynnal a chadw tir, gwasanaethau adnewyddu ac atgyweirio tai, gwasanaethau gosod tai a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae sawl cwmni cydfuddiannol ym maes tai wrthi eisoes yn datblygu busnesau newydd, ond roedd y Comisiwn o'r farn bod lle i ragor o gwmnïau cydfuddiannol fabwysiadu'r dull gweithredu hwn, bod lle i ymestyn gwasanaethau deillio i ragor o feysydd, a bod lle i gwmnïau cydfuddiannol ym maes tai fentora a chefnogi mentrau cydweithredol a chydfuddiannol newydd mewn sectorau eraill a hyrwyddo manteision cydweithredu.

Yn ail, gellid sefydlu math newydd o ddeiliadaeth ar gyfer tai cydweithredol, fel y nodwyd yn nogfen Llywodraeth Cymru '*Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*'. Gall y model hwn alluogi pobl i gael tai na fyddent yn fforddiadwy fel arall, trwy gyfuno adnoddau er mwyn prynu neu ddatblygu eiddo. Fel y darganfu'r Comisiwn o brosiect ym Merthyr Tudful[53], gall deiliadaeth gydweithredol helpu hefyd i gyflwyno tai nad oes llawer o alw amdanynt i farchnadoedd newydd. Darganfu'r Comisiwn fod tystiolaeth o alw posibl sylweddol[54] am ddeiliadaethau cydweithredol. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid symud yr ymrwymiad i'r ddeiliadaeth newydd yn ei flaen, gyda threfniadau diogelu e.e. trefniadau cloi asedau er mwyn gwarchod rhag colli statws cydfuddiannol.

Yn drydydd, roedd y Comisiwn yn croesawu rôl bosibl cymdeithasau tai cydfuddiannol cymunedol i ddarparu'r sylfaen asedau ar gyfer 'Menter Cyllid Cydweithredol'. Gellid defnyddio pwerau benthyca landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i droi cyllid refeniw yn fuddsoddiad cyfalaf. Gallai cyllid ysgogi cyflenwad ym maes tai ac mewn meysydd eraill hefyd, gan gynnwys ym maes iechyd, addysg, hamdden a chyfleusterau cymunedol allweddol eraill. Fel y nododd Cartrefi Cymunedol Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> *'Gallai 'Menter Cyllid Cydweithredol' newydd ddarparu buddsoddiad economaidd effeithlon ar gyfer y llywodraeth, gan sicrhau rheolaeth reoleiddiol a chymunedol ac atebolrwydd i ddinasyddion'*[55]

## Ynni

Nododd y Comisiwn fod nifer o wahanol fathau o gwmnïau cydweithredol yn bodoli ym maes ynni. Y math a gaiff ei hybu amlaf yw cwmnïau cynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol. Ar hyn o bryd, mae prosiect Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru yn cefnogi 24 o wahanol brosiectau ynni cymunedol ar draws Cymru[56] ac mae Ynni Cymunedol Cymru,

53 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Tystiolaeth ysgrifenedig

54 Canolfan Cydweithredol Cymru (2013) Ymchwil i'r galw posibl am dai cydweithredol yng Nghymru. Ar gael ar: http://www.walescooperative.org/tmp_downloads/n83y38h62t137f55h45y54o74s69h13z58x76w135b62s81/housing-report-final-cy.pdf

55 Cartrefi Cymunedol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig

56 Llywodraeth Cymru (2013) Prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol yn codi stêm. Datganiad i'r

sef y sefydliad ag aelodau a grëwyd yn ddiweddar, yn ennyn cefnogaeth gynyddol. Yn ogystal, ceir cwmnïau cydweithredol sy'n prynu ynni a Chlybiau Gweithredu ar Ynni lle caiff deiliaid tai gyngor a chymorth i leihau'r ynni y maent yn ei ddefnyddio.

Roedd y Comisiwn o'r farn bod potensial sylweddol iawn i ddatblygu'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod potensial i gynyddu'r ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy ddengwaith rhwng 2011 a 2020/25[57].

Ffigur 3: Cymoedd Gwyrdd Llangatwg

> Yn 2009, daeth prosiect Cymoedd Gwyrdd Llangatwg ym Mhowys i'r brig yn rownd derfynol Cymru o her Strydoedd Gwyrdd British Gas, ac aeth yn ei flaen i gipio teitl Prydain.
>
> Ar y pryd, roedd paneli solar a 100 o baneli rheiddiaduron wedi'u gosod yn yr ysgol ac roedd pwmp gwres o'r aer wedi'i ychwanegu yn neuadd y pentref. Yn y cyfamser, cyflwynodd 43 o gartrefi yn Llangatwg fesurau effeithlonrwydd ynni a oedd yn cynnwys deunydd inswleiddio, paneli solar, boeler bio-màs a stofiau amldanwydd.
>
> Enillodd Llangatwg £100,000 i'w ddefnyddio i wneud y pentref yn negatif o ran carbon, a phenderfynodd ddatblygu cynlluniau ynni dŵr. Cafodd prosiect Cymoedd Gwyrdd Llangatwg ei sefydlu gan y pentrefwyr fel busnes cydweithredol.
>
> Yn 2013, lansiodd y cwmni cydweithredol cymunedol gynllun cyfranddaliadau i ariannu'r gwaith o adeiladu dau ficrogynllun ynni dŵr, a llwyddodd i gyrraedd ei darged, sef £273,000, cyn pen dau fis.

## Siopau bwyd a chwmnïau bwyd cydweithredol, tafarnau, cyfleusterau cymunedol a chlybiau cefnogwyr

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn amcangyfrif bod tua 100 o gwmnïau cydweithredol cymunedol yng Nghymru sy'n darparu ystod eang o wasanaethau, o siopau a thafarnau cymunedol i gwmnïau bwyd cydweithredol, neuaddau pentref, darparwyr gofal plant a chlybiau cefnogwyr chwaraeon[58]. Dywedodd Sefydliad Plunkett wrth y Comisiwn fod tua 15 o siopau a thafarnau dan berchnogaeth gymunedol ar agor ac yn masnachu yng Nghymru. Yn ogystal, roedd 276 o gwmnïau bwyd cydweithredol yn bodoli yn 2011 (nid oedd gan bob un ohonynt gyfansoddiad ffurfiol) ac roeddent yn cyflenwi bron i 4,500 o gwsmeriaid bob wythnos[59]. Erbyn hyn, mae gan Gymru hefyd nifer o glybiau chwaraeon sydd dan berchnogaeth gydweithredol neu gydfuddiannol, e.e. Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam.

---

wasg 26 Chwefror. Ar gael ar: http://cymru.gov.uk/newsroom/environmentandcountryside/2013/7117980/?lang=cy

57 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2013) Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru: mewn ffigurau. Ar gael ar: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/research/bus-assembly-research-publications/enviro-sustainability/13-059.pdf

58 Canolfan Cydweithredol Cymru (2012) Mentrau Cydweithredol Cymunedol yng Nghymru – Pobl gyffredin yn gwneud pethau anghyffredin. Ar gael ar: http://www.walescooperative.org/tmp_downloads/q138w15y14b134n129f47u93i56l150j118l121s101i67w125j105/iyc-report-4–comm-coops-cy.pdf

59 BMG Research (2012) Evaluation of the Community Food Co-operative Programme in Wales. Ar gael ar: http://cymru.gov.uk/docs/caecd/research/120628communityfoodfinalen.pdf

Canfu astudiaeth gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fod cwmnïau cydweithredol cymunedol yn helpu i ddenu incwm i gymunedau a chadw incwm ynddynt, eu bod yn cynnig manteision amgylcheddol drwy gyflenwi gwasanaethau'n lleol, eu bod yn darparu gwasanaethau hanfodol, eu bod yn hybu cydlyniant cymunedol a'u bod hefyd yn fusnesau hyfyw, er yn fach[60].

Dywedodd Sefydliad Plunkett wrth y Comisiwn fod potensial sylweddol i ddatblygu siopau a thafarnau cymunedol, a bod y gwaith o'u datblygu'n cyflymu erbyn hyn ar ôl dechrau eithaf araf[61]. Awgrymodd Canolfan Cydweithredol Cymru ac eraill bod cyfle i ddatblygu gwasanaethau cymunedol eraill, gan gynnwys clybiau chwaraeon[62]. Mae'r ffaith bod siopau lleol, tafarnau a gwasanaethau cymunedol eraill yn cau, neu'r ffaith bod rhywun yn bygwth cau clybiau chwaraeon neu'u cymryd drosodd, yn aml yn peri i fentrau cydweithredol ymddangos. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bendant bod y potensial yn ehangach o lawer na hynny, a bod lle i ddatblygu ystod eang o wasanaethau hanfodol fel cwmnïau cydweithredol neu gydfuddiannol, ac nid y gwasanaethau hynny sydd dan fygythiad yn unig.

## Gwasanaethau ariannol personol

Yng Nghymru ar hyn o bryd ceir 21 o undebau credyd, tair cymdeithas adeiladu gydfuddiannol, The Co-operative Bank a dau Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol, Moneyline Cymru a Robert Owen Montgomeryshire Credit Union Limited, sy'n darparu gwasanaethau ariannol personol dan gydberchnogaeth. Gyda'i gilydd, mae gan y sefydliadau hyn asedau sylweddol; er enghraifft, ym mis Medi 2012 roedd sylfaen asedau'r undebau credyd yn werth dros £30 miliwn[63], ac roedd asedau cymdeithas adeiladu Principality yn werth £6.7 biliwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym 2012[64].

Nododd y Comisiwn fod lefel y galw preifat am gredyd eisoes yn uchel. Yn 2011/12, roedd Cartrefi Cymunedol Cymru yn amcangyfrif bod 26,000 o bobl wedi benthyca arian gan fenthycwyr arian didrwydded[65] – ac mae'r nifer hwnnw'n debygol o gynyddu ymhellach o ganlyniad i ddiwygio lles.

Yn ôl tystiolaeth yr Association of British Credit Unions Limited (ABCUL), roedd y Gronfa Twf Cynhwysiant Ariannol, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011, wedi arbed rhwng £119 miliwn a £135 miliwn mewn taliadau llog i'r sawl a oedd yn benthyca arian[66]. Cyfeiriodd ABCUL at y manteision sylweddol i'r economi leol o leihau taliadau i fenthycwyr sydd â chyfraddau llog uchel, a thynnodd sylw at rai prosiectau arloesol a gyflwynwyd gan undebau credyd, sy'n gallu cynorthwyo cynhyrchwyr a manwerthwyr lleol. Yn ogystal, nododd y Comisiwn botensial benthyciadau sy'n ymwneud ag eiddo

60 Canolfan Cydweithredol Cymru (2012) Mentrau Cydweithredol Cymunedol yng Nghymru – Pobl gyffredin yn gwneud pethau anghyffredin. Ar gael ar: http://www.walescooperative.org/tmp_downloads/q138w15y14b134n129f47u93i56l150j118l121s101i67w125j105/iyc-report-4--comm-coops-cy.pdf

61 Sefydliad Plunkett, Tystiolaeth ysgrifenedig

62 Canolfan Cydweithredol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig

63 Old Bell 3 Ltd (2012) Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd – Adroddiad Interim Terfynol. Ar gael ar http://cymru.gov.uk/docs/caecd/research/130312-access-financial-services-credit-unions-project-interim-cy.pdf

64 Cymdeithas Adeiladu Principality (2013) Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, 2012. Ar gael ar: http://www.principality.co.uk/~/media/Files/PDF/Financial%20Reports/2012/20701%20Annual%20Report%202012%20TOTAL%20WELSH%20V3.ashx

65 Ibid.

66 ABCUL, Tystiolaeth ysgrifenedig, t. 4

(e.e. Benthyciadau Arbrisiant Eiddo[67]) a'r diddordeb sydd gan Gofal a Thrwsio Cymru mewn datblygu cynnyrch o'r fath.

Ymchwiliodd y Comisiwn i rôl arian cymunedol a all fod ar gael mewn amryw ffyrdd. Ymwelodd y Comisiwn â Spice Timebanking yn Sir Gaerfyrddin, a chlywodd hefyd gan Gomisiynydd am dwf arian cydfuddiannol. Ceir 400 o Gynlluniau Masnachu Cyfnewid Lleol, 75 o fanciau amser a 5 math o arian cymunedol yn y DU. Mae Punt Bryste (Ffigur 4) yn enghraifft y mae potensial arbennig yn perthyn iddi, gan fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i dalu cyflogau a threthi lleol.

Ffigur 4: Punt Bryste

Gall trigolion Bryste gyfnewid punnoedd sterling am bapurau Punnoedd Bryste neu gredydau symudol drwy eu hundeb credyd lleol, a gallant ddefnyddio'r arian hwnnw i brynu nwyddau neu wasanaethau (am ddisgownt yn aml) o dros 600 o siopau a gwasanaethau yn y ddinas. Gall masnachwyr ddefnyddio Punnoedd Bryste i dalu eu hardrethi masnachol, er mwyn sicrhau eu bod yn barod i dderbyn yr arian a sicrhau eu bod yn cael cyhoeddusrwydd drwy wefan y cynllun.

Erbyn hyn, mae Cyngor Bryste yn derbyn taliadau Treth Gyngor mewn Punnoedd Bryste ac mae'r Cyngor yn ei dro yn gwario Punnoedd Bryste ar gyflenwadau lleol neu ar gyflogau. Erbyn hyn, mae Maer Bryste yn cael ei gyflog i gyd mewn Punnoedd Bryste, ac mae'r Prif Weithredwr yn cael cyfran o'i chyflog hithau yn yr arian hwnnw.

Er mai ers blwyddyn yn unig y mae Punt Bryste yn bodoli, mae eisoes yn gwthio'r ffiniau gan fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i dalu trethi a chyflogau. Mae'n ymddangos yn fwyfwy tebyg i arian enwog tref Worgl yn Awstria yn yr 1930au, lle cafodd y maer wared â diweithdra a dyled y dref drwy dalu gweithwyr a derbyn taliadau trethi mewn arian a oedd i bob pwrpas yn bunnoedd Worgl. Mae gan Fryste 1,200 o gyfrifon eisoes (ac mae hynny yn ei dro wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer yr aelodau sydd gan yr undeb credyd). Mae'n fodel sy'n uniongyrchol berthnasol i'r gwaith o ehangu'r economi gydfuddiannol leol yng Nghymru.

Nododd y Comisiwn fod potensial sylweddol i undebau credyd a gwasanaethau ariannol personol eraill dyfu, nid yn unig er mwyn darparu cyllid fforddiadwy i bobl sydd ar bob lefel o ran incwm, ond hefyd er mwyn creu swyddi y tu mewn a'r tu allan i undebau credyd.

## Trafnidiaeth

Nododd y Comisiwn fod y contract cyfredol ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn dod i ben yn 2018. Fel y dengys y dadansoddiad o'r contract yn *The Great Train Robbery: Rail Privatisation and After*[68] cymhorthdal cyhoeddus oedd y rhan fwyaf

67 Llywodraeth Cymru (2011) Rhaglen Lywodraethu, t. 23. Ar gael ar: http://cymru.gov.uk/docs/strategies/110929fullcy.pdf

68 A. Bowman, P. Folkman, J. Froud, S. Johal, J. Law, A. Leaver, M. Moran, K. Williams (2013) The Great Train Robbery: Rail Privatisation and After. Centre for Research on Socio-Cultural Change. Ar gael ar: http://www.cresc.ac.uk/sites/default/files/GTR%20Report%20final%205%20June%202013.pdf tt.

o'r refeniw (60 y cant). Er gwaethaf y cymhorthdal cyhoeddus sylweddol, mae Deutsche Bahn, sef perchennog Arriva, wedi gallu tynnu dros £75 miliwn ar ffurf difidendau o'r contract yn ystod y cyfnod rhwng 2003 a 2012.

Felly, mae'r Comisiwn yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ystyried gweithredu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau fel cwmni dielw, ac mae'n cydnabod y gwaith a wnaed gan Paul Salveson[69], sy'n dangos y potensial o safbwynt cael cwmni dielw ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

Mae'r Comisiwn yn deall bod rhwystrau cymhleth y byddai angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hwy yng nghyswllt gwaith caffael, deddfwriaeth, cyllid a materion cyfansoddiadol gyda'r Adran Drafnidiaeth. Er hynny, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'n fuddiol i fasnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau gael ei gweithredu er budd y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn hytrach nag er budd y cyfranddalwyr.

Yn ogystal, nododd y Comisiwn y potensial sylweddol ar gyfer perchnogaeth gydweithredol neu gydfuddiannol ar fathau eraill o drafnidiaeth, gan gynnwys cludiant cymunedol, a'r potensial ar gyfer cludiant i gleifion, mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, a ddirprwyir i fyrddau iechyd i'w ddarparu drwy gwmnïau cydweithredol neu gydfuddiannol.

## Gwasanaethau cyhoeddus

Bu'r Comisiwn yn ystyried yn ofalus iawn y pwnc dadleuol sy'n ymwneud â ph'un a ddylai cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol chwarae rôl yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig mewn hinsawdd ariannol sy'n anodd. Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a gaiff ei gadeirio gan Syr Paul Williams sydd hefyd yn aelod o'r Comisiwn hwn, yn cynnig cyfle gwirioneddol i ddarparu rhywfaint o gyngor cydgysylltiedig i weinidogion ynghylch y dyfodol o safbwynt darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Cafodd gwaith datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ei gefnogi gan sawl awdurdod lleol a roddodd dystiolaeth. Cydnabu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai cwmnïau cydweithredol neu gydfuddiannol chwarae rôl fwy amlwg o safbwynt darparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy yn y dyfodol'[70], a dyma a ddywedodd Cyngor Sir Penfro:

> *Mewn cyd-destun lle ceir galw cynyddol am wasanaethau a gaiff eu personoli a'u cydgynhyrchu, a phwysau cynyddol ar gyllid y sector cyhoeddus, ceir potensial amlwg i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol weithredu.*[71]

Bu i ni gydnabod pwysigrwydd undebau llafur yng nghymdeithas sifil Cymru. Er bod cysylltiad rhwng undebau llafur a'r mudiad cydweithredol a bod undebau llafur yn rhannu llawer o werthoedd y mudiad – yn wir, TUC Cymru fu'n arwain y gwaith o greu Canolfan Cydweithredol Cymru – mae gan lawer o undebau'r sector cyhoeddus amheuon dwys ynghylch y dulliau presennol o greu cwmnïau cydfuddiannol.

*53-55*

69 P. Salveson (2012) Rail Cymru: A People's Railway for Wales. Ar gael ar: http://www.party.coop/files/2012/11/Welsh-Rail-pamphlet-online.pdf.pdf.pdf.pdf

70 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 12

71 Cyngor Sir Penfro, Tystiolaeth ysgrifenedig, tt. 1-2

Mae'r Comisiwn yn rhannu rhai o amheuon yr undebau llafur, yn enwedig y rhagdybiaethau, yr honiadau a'r cymhellion sy'n gysylltiedig â dull gweithredu Llywodraeth y DU. Mae'r modd y mae Swyddfa'r Cabinet yn hyrwyddo modelau trefniadaethol cydfuddiannol a chydweithredol heb ystyried yr egwyddorion neu'r gwerthoedd sylfaenol yn awgrymu bod angen dull mwy pwyllog o weithredu yn y cyswllt hwn. Er hynny, mae'r Comisiwn wedi'i argyhoeddi'n bendant bod ffurfio cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mathau eraill o fusnesau dan berchnogaeth gymdeithasol yn well na phreifateiddio gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn credu'n gryf y dylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ofyn am gyngor ynghylch modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol gan ymgynghorwyr busnes arbenigol, ac ymgysylltu'n gynnar ac yn ystyrlon â'u gweithlu pan fyddant yn ystyried newidiadau.

## Gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r Comisiwn yn credu'n gryf y dylai'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus barhau i fod yn wasanaethau cyffredinol a ariennir gan drethi gyda chytundeb dinasyddion, ac a ddarperir ar sail angen yn hytrach na'r gallu i dalu.

Mae'r Comisiwn o'r farn bod troi gwasanaethau cyhoeddus yn gwmnïau cydfuddiannol yn hollol wahanol i osod gwaith ar gontract, o safbwynt egwyddor ac o safbwynt ymarferol. Rydym o'r farn mai rôl y wladwriaeth yw gwarchod gwasanaethau, nwyddau ac asedau sy'n hybu lles ei dinasyddion – ond efallai nad yw hynny bob amser yn golygu bod yn rhaid i'r wladwriaeth ei hun ddarparu gwasanaethau. Yn wir, gall creu cwmnïau cydfuddiannol fod yn ffordd effeithiol o gynnwys dinasyddion neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, a elwir weithiau'n gydgynhyrchu.

> Mae'r Comisiwn yn credu'n gryf y dylai'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus barhau i fod yn wasanaethau cyffredinol a ariennir gan drethi gyda chytundeb dinasyddion, ac a ddarperir ar sail angen yn hytrach na'r gallu i dalu.

Caiff ein safbwyntiau eu hategu gan ymchwil a gomisiynwyd gennym ynghylch profiadau cwmnïau cydfuddiannol ym maes tai, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai[72]. Canfu'r ymchwil fod cymdeithasau tai a chwmnïau cydfuddiannol cymunedol ym maes tai yn *fwy* tebygol o fod yn ymwybodol o werthoedd gwasanaethau cyhoeddus ac yn fwy tebygol o gydymffurfio â hwy nag adrannau tai awdurdodau lleol. Nid oeddent yn fwy tebygol nag awdurdodau lleol o osod darpariaeth o ran gwasanaeth ar gontract, ac yn wir roedd rhai wedi ailddechrau darparu gwasanaethau'n fewnol ar ôl caffael gwasanaethau allanol. Roedd yr ymchwil hefyd yn dangos bod y risg y gallai cymdeithasau tai neu gwmnïau cydfuddiannol cymunedol fynd i'r wal neu y gallai eu hasedau gael eu trosglwyddo i'r sector preifat yn fach iawn.

72 Altair Research (2013) Different structures for delivering public services using social housing as a case study area. Ymchwil ar ran y Comisiwn

## Amodau a thelerau gweithwyr

Mae'r Comisiwn yn cydnabod pryder undebau llafur ynghylch gwanhau amodau a thelerau gweithwyr. Dangosodd ein hymchwil[73] nad oedd creu cwmnïau cydfuddiannol, ym maes tai, wedi niweidio buddion gweithwyr. Roedd y cymdeithasau tai a'r cwmnïau cydfuddiannol diweddaraf a ffurfiwyd wedi cadw amodau a thelerau Cyd-gyngor Cenedlaethol awdurdodau lleol. Mewn achosion lle'r oedd sefydliadau wedi mabwysiadu cynlluniau eraill ar gyfer dyfarniadau, roedd gweithwyr wedi cael codiadau cyflog uwch na'r rhai a fyddai'n berthnasol dan delerau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol, roeddent wedi cael buddion eraill ac roeddent yn wynebu llai o risg o doriadau i staff na'r sawl a oedd yn gweithio mewn awdurdodau lleol. Pan fydd trosglwyddiadau uniongyrchol o'r sector cyhoeddus yn digwydd, bydd y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) yn berthnasol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, mae gwasanaethau'r sector cyhoeddus wedi dod i ben ac maent wedi'u hailgyflwyno wedyn fel menter newydd. Sylwodd y Comisiwn ar un sefydliad o'r fath, ym maes gwasanaethau hamdden, lle'r oedd cyflogau ac amodau wedi'u gwanhau o'u cymharu â chyflogau ac amodau awdurdodau lleol. Ym maes gofal cymdeithasol, cawsom wybod bod cyflogau'n cael eu gwasgu i lawr, ni waeth pa fath o berchnogaeth sy'n berthnasol[74].

Dim ond o safbwynt trefniadau pensiwn yr oedd telerau awdurdodau lleol yn fwy ffafriol (a bydd hyd yn oed y rheini'n newid o 2014 ymlaen). Fodd bynnag, mae'r gallu i drosglwyddo pensiynau'r sector cyhoeddus yn parhau i fod yn broblem y mae angen ei datrys ar frys os bwriedir creu cwmnïau cydfuddiannol ar raddfa fawr.

## Asedau cyhoeddus

Nododd y Comisiwn fod angen i asedau cyhoeddus gael eu gwarchod os caiff gwasanaeth ei droi'n gwmni cydfuddiannol. Mae angen i asedau fod ar gael i warantu benthyciadau, ond fel rheol ni ddylai fod modd eu trosglwyddo i berchnogaeth breifat. Gall amryw fathau o drefniadau 'cloi asedau' atal camau i'w gwaredu – mae'r Comisiwn o'r farn bod angen datblygu amryw fathau o drefniadau dan y term cyffredinol 'partneriaethau cymdeithasol cyhoeddus' er mwyn darparu'r sicrwydd angenrheidiol y bydd asedau'n cael eu cadw er budd cymunedau.

Nododd y Comisiwn nad yw nifer sylweddol a chynyddol o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu gan y sector cyhoeddus beth bynnag. Mae'r sector preifat a'r trydydd sector eisoes yn darparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus, o ofal cymdeithasol, gofal iechyd meddwl, nyrsys asiantaeth ac athrawon cyflenwi, gwasanaethau ym maes anghenion addysgol arbennig, gwasanaethau hamdden a gwasanaethau tai i enwi dim ond rhai o'r gwasanaethau a gaiff eu gosod ar gontract yn wirfoddol gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

73 Altair Research (2013) Different structures for delivering public services using social housing as a case study area. Ymchwil ar ran y Comisiwn

74 Fforwm Gofal Cymru, Tystiolaeth lafar

## Arloesi

Nododd y Comisiwn fod datblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael â heriau yn y dyfodol. Ym marn y Comisiwn, mae dod o hyd i ffyrdd o wneud pethau'n wahanol gan barhau i ddiwallu anghenion pobl, yn hytrach na chyflwyno toriadau cyffredinol i wasanaethau neu gyfyngu ar y graddau y maent ar gael, yn ddull mwy teg a chyfiawn o weithredu mewn hinsawdd ariannol sy'n anodd. Mae gan gwmnïau cydweithredol hanes hir o greu meysydd gwasanaeth newydd a chyflwyno modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau, y caiff rhai ohonynt eu cefnogi'n ddiweddarach gan y wladwriaeth, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

"Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod dull strwythuredig, rhagweithiol o droi gwasanaethau'n gwmnïau cydfuddiannol yn well na gosod gwaith ar gontract, sy'n ddull tameidiog o weithredu a gaiff ei sbarduno gan gost."

Cafodd y Comisiwn dystiolaeth bod gwasanaethau a drowyd yn gwmnïau cydfuddiannol yn gallu bod yn fwy arloesol ac yn fwy ymatebol i anghenion dinasyddion na darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd ymgynghorwyr proffesiynol o'r sector masnachol ac ymgynghorwyr arbenigol ym maes cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, sy'n cynnig cyngor ynghylch troi gwasanaethau cyhoeddus yn gwmnïau cydfuddiannol, wrthym fod modelau cydfuddiannol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, o'u gweithredu'n dda, yn gallu bod yn fwy ymatebol i anghenion pobl. Bu i ni nodi bod cymdeithasau tai a chwmnïau cydfuddiannol ym maes tai hefyd wedi datblygu gwasanaethau newydd, a bod rhai wedi creu busnesau newydd er mwyn eu darparu. Er enghraifft, roedd Cartrefi RCT wedi creu sefydliadau ar wahân i ddarparu hyfforddiant ac i drin a chynnal a chadw offer nwy[75]. Mewn mannau eraill yn y DU, mae cynghorau cydweithredol, er enghraifft, yn dod o hyd i ffyrdd newydd y gall awdurdodau lleol weithio gyda dinasyddion i ddatblygu a darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod dull strwythuredig, rhagweithiol o droi gwasanaethau'n gwmnïau cydfuddiannol yn well na gosod gwaith ar gontract, sy'n ddull tameidiog o weithredu a gaiff ei sbarduno gan gost. Bu i ni nodi bod gan y sectorau canlynol yn y sector cyhoeddus botensial arbennig o safbwynt creu cwmnïau cydfuddiannol.

## Ysgolion a cholegau cydweithredol

Mae addysg yng Nghymru wedi bod dan bwysau mawr i godi lefelau cyrhaeddiad. Nododd y Comisiwn dystiolaeth gan The Co-operative Group a oedd yn tynnu sylw at holl fanteision addysg gydweithredol[76]. Esboniodd y gall cydweithredu olygu mabwysiadu ethos cydweithredol heb fod angen strwythurau llywodraethu cydweithredol o reidrwydd[77].

Mewn sawl rhan o'r DU, mae pwysau i godi lefelau cyrhaeddiad wedi arwain at sefydlu ysgolion a cholegau fel mentrau cydweithredol – weithiau fel sefydliadau unigol neu

75 Cartrefi RCT, Tystiolaeth lafar
76 The Co-operative Group, Tystiolaeth ysgrifenedig
77 The Co-operative Group, Tystiolaeth ysgrifenedig

weithiau fel ffederasiynau o ysgolion – sydd wedi arwain at ganlyniadau dramatig ar adegau (Ffigur 5).

Hyd yn hyn, nid oes yr un ysgol yng Nghymru sydd wedi'i sefydlu fel menter gydweithredol neu gydfuddiannol. Croesawodd y Comisiwn argymhelliad Robert Hill[78] sef y dylai Ymddiriedolaethau Cydweithredol fod yn opsiwn ar gyfer llywodraethu ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni ellir gorfodi gwaith sefydlu ysgolion cydweithredol; rhaid iddynt ymddangos o'r gwaelod i fyny i allu gwneud yn fawr o fanteision cydweithredu. Mae'r Comisiwn o'r farn bod pwysau ariannol, newidiadau mewn trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â ffurfio consortia addysg rhanbarthol, a phryder parhaus ynghylch safonau'n golygu mai nawr yw'r amser i hybu ethos cydweithredol mewn ysgolion, a ddylai fod yn brif egwyddor drefniadol y system addysg yng Nghymru.

Ffigur 5: Sir Ysgol Uwchradd Syr Thomas Boughey

Ysgol Uwchradd Syr Thomas Boughey yn Newcastle Under Lyme, Swydd Stafford oedd un o'r ysgolion cyntaf yn y DU i fabwysiadu gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol. Daeth yn Goleg Busnes Cydweithredol arbenigol yn 2004, a bellach mae'n Ysgol Ymddiriedolaeth Gydweithredol. Cyn dod yn fenter gydweithredol, roedd yr ysgol yn wynebu problemau enbyd. Defnyddiodd y Pennaeth werthoedd ac egwyddorion cydweithredol yn sail ar gyfer strwythur gwerthoedd yr ysgol. Gosododd yr ysgol dri nod cyffredinol:

- Defnyddio gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol yn sail ar gyfer datblygu dinasyddion da.
- Datblygu ein tîm rheoli gan ddefnyddio dulliau cydweithredol.
- Sicrhau cydbwysedd rhwng Cwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus a'r dull amgen cydweithredol mewn unrhyw waith sy'n ymwneud â busnes neu fenter.

Gwelwyd gwelliant dramatig ym mherfformiad yr ysgol ar bob lefel, a gwelwyd cyfran y disgyblion a oedd yn ennill 5 gradd TGAU rhwng A ac C (gan gynnwys Saesneg a Mathemateg) yn codi o 28 y cant i dros 70 y cant. Yn 2010, cafodd yr ysgol ei chydnabod yn Ysgol Arbenigol Uchel ei Pherfformiad, ac yn dilyn arolwg gan Ofsted nodwyd bod yr ysgol yn 'rhagorol'.

Mae'r ysgol hefyd wedi bod yn arloesi gyda chysylltiadau â chwmnïau cydweithredol mewn gwledydd eraill ac ysgolion cydweithredol mewn lleoedd megis Sbaen.

*Ffynhonnell: Sefydliad Bevan (2012)* ***Co-operative Education for a Co-operative Wales***.

## Gofal cymdeithasol

Mae gofal cymdeithasol yn sector economaidd pwysig yng Nghymru. Yn 2011-12, roedd gwariant refeniw ar yr holl wahanol fathau o wasanaethau gofal cymdeithasol personol yn cyfateb i £1,487 miliwn. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth o bobl hŷn, ac yn enwedig yn nifer y bobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor a dementia, yn golygu

78 Robert Hill (2013) Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, http://cymru.gov.uk/docs/dcells/consultation/130618-delivery-of-education-report-cy.pdf

bod disgwyl i'r sector dyfu ymhellach. Caiff llawer o ofal cymdeithasol (87 y cant o wasanaethau i oedolion, 69 y cant o wasanaethau i blant a 91 y cant o ofal dydd i blant) ei ddarparu gan sefydliadau preifat, annibynnol neu wirfoddol[79]. Mae aelodau Fforwm Gofal Cymru, sy'n cynrychioli darparwyr preifat ym maes gofal cymdeithasol, yn cyflogi 28,000 o bobl[80].

Mae'r sector gofal cymdeithasol cydweithredol a chydfuddiannol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd yn eithaf bach, gyda sefydliadau megis Shaw Healthcare yn darparu gwasanaethau gofal preswyl, gofal cartref a gofal arbenigol a Gwalia, Hendre, Pennaf a Linc yn darparu gwasanaethau gofal preswyl ochr yn ochr â'u gwasanaethau tai. Yn ogystal, ceir nifer bach o leoliadau cydweithredol sy'n darparu gofal dydd i blant.

Nododd y Comisiwn fod llawer o sefydliadau wedi tynnu sylw at y potensial i ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ym maes gofal cymdeithasol. Er enghraifft, dyma a ddywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> *Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod gwerth modelau darparu o'r fath o safbwynt cynnig cyfle gwirioneddol i ddefnyddwyr a gofalwyr lunio a darparu gwasanaethau.*[81]

Mae'r Comisiwn yn falch bod Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ceisio hybu modelau darparu cydweithredol, a ddylai sbarduno twf ymhellach.

Mae'r Comisiwn o'r farn bod achos cryf dros gael cwmnïau cydweithredol i chwarae mwy o ran ym maes gofal cymdeithasol, oherwydd y gwerth ychwanegol y gallant ei gynnig i wasanaethau gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys:

- Gwasanaethau o safon, sy'n seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion cydweithredol yn hytrach nag elw preifat;
- Gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion pobl, oherwydd eu bod yn cael eu cyfarwyddo gan ddinasyddion, sy'n rhoi llawer mwy o lais a mwy o reolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr;
- Elfen gryfach o gystadleuaeth mewn marchnad a reolir gan ddarparwyr mawr, preifat.

Ceir potensial i ganolfannau gofal dydd a gofal cymdeithasol a chanolfannau cymunedol cydweithredol ddechrau rhedeg ysbytai cymunedol – gyda chymorth gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig efallai.

## Gofal iechyd

Yn 2012-13, cafodd dros £5 biliwn ei ddyrannu i fyrddau iechyd lleol[82]. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal sylfaenol (meddygon teulu, deintyddion, optegwyr a fferyllwyr) yn fusnesau preifat, sydd efallai'n wahanol i'r hyn y mae pobl yn ei gredu.

79 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2011) Briff Gwybodaeth: Gweithgareddau allweddol mewn lleoliadau a gwasanaethau a reoleiddir. Ar gael ar: http://cymru.gov.uk/docs/cssiw/report/110120infobriefcy.pdf

80 Fforwm Gofal Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig

81 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 18

82 Llywodraeth Cymru (2013) Ystadegau Iechyd Cymru 2012, Tabl 15.3

Mae'r ddarpariaeth gydweithredol o ran gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd. Dysgodd y Comisiwn am yr enghreifftiau niferus a geir mewn mannau eraill, e.e. y gwasanaethau 'y tu allan i oriau arferol' a ddarperir gan feddygon teulu. Y darparwr mwyaf yw SELDOC (South East London Doctors' Co-operative) sy'n trin oddeutu miliwn o gleifion – gweler Ffigur 6 hefyd[83]. Mae'r Comisiwn o'r farn bod potensial i gwmnïau meddygon teulu cydweithredol gael eu sefydlu mewn ardaloedd o Gymru lle mae'n anodd recriwtio meddygon teulu newydd.

Nododd y Comisiwn fod The Co-operative Pharmacy yn darparu llawer o wasanaethau gofal iechyd cymunedol yn ogystal â gweinyddu presgripsiynau.

Roedd y Comisiwn o'r farn bod angen datblygu dulliau newydd o gomisiynu gwasanaethau iechyd, sy'n diwallu anghenion unigolion ac sy'n dyrannu adnoddau'n unol â hynny. Yn benodol, mae cwmnïau cydweithredol lleol yn cynnig y potensial i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd mwy effeithiol. Mae'n amlwg bod y materion a gaiff eu codi yn y sector yn rhai mawr a chymhleth, ac mae'r Comisiwn o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith pellach ynghylch potensial y sector.

Ffigur 6: Cwmni gofal sylfaenol cydweithredol yn Stoke-on-Trent

Yn draddodiadol, mae gofal sylfaenol yn y DU wedi troi o amgylch meddygfeydd meddygon teulu cymunedol sy'n gweithredu i wneud elw. Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol Partneriaeth Willow Bank yn archwilio model trefniadaethol newydd sy'n seiliedig ar bractis lleol a reolir yn gydweithredol. Mae'n gobeithio y bydd yn datblygu'n un o rwydwaith o bractisiau tebyg a fydd yn gallu rhannu profiadau a gwasanaethau strategol eraill.

Nes 2006 roedd meddygfa Willow Bank, a oedd yn darparu gofal mewn ardal dlawd o Stoke, yn cael ei rhedeg gan yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol leol ac roedd yn cyflogi dau feddyg ac aelodau eraill o staff iechyd. Pan ddaeth yn ofynnol i Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol roi'r gorau i redeg darpariaeth uniongyrchol o'r fath, penderfynodd y staff yn Willow Bank sefydlu cwmni cydweithredol ag amcanion cymdeithasol amlwg. Byddai'n gwmni cydweithredol ag amryw randdeiliaid, a fyddai'n cynnwys y staff, y cleifion a'r gymuned ehangach. Yn ychwanegol at y staff, y rhanddeiliaid cyntaf oedd Gingerbread, sef grŵp cymunedol lleol a oedd yn gweithio gyda theuluoedd un rhiant, a CTP, sef menter gymdeithasol arbenigol gan gyn-reolwyr gwasanaethau iechyd, a oedd yn ymwneud â modelau newydd ar gyfer gofal iechyd gwasgaredig.

Mae pedair prif egwyddor yn perthyn i'r practis:

- Dylai'r practis ganolbwyntio ar y cleifion, a dylai fod yn agored i bawb yn yr ardal, waeth pa mor gymhleth yw eu cyflyrau;
- Dylai'r staff ddatblygu amryw sgiliau (ceir rhaglen hyfforddi flynyddol sy'n cynnwys absenoldeb gyda thâl, lle caiff yr holl staff eu hannog i ddatblygu eu sgiliau);

83 Geraint Day a Mo Girach, Tystiolaeth ysgrifenedig

- Dylai'r practis fod yn llwyfan sy'n ei gwneud yn bosibl i grwpiau cymunedol a gwasanaethau eraill sy'n berthnasol i gleifion weithio gyda'i gilydd er mwyn cynorthwyo i ddiwallu anghenion amrywiol cleifion unigol a'u teuluoedd (yn ddiweddar maent wedi cwblhau cynllun dylunio peilot dan arweiniad y defnyddwyr ar waith comisiynu sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, a oedd yn cynnwys defnyddio amrywiaeth o wasanaethau gofal a gwasanaethau cymunedol i ddiwallu anghenion penodol teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth, gan ddarogan arbedion sylweddol i gyllidebau'r GIG);
- Mae'r meddygon teulu ac aelodau eraill o staff yn weithwyr cyflog, a chaiff yr arian sydd dros ben ei ailfuddsoddi yn y gwaith o ehangu'r gwasanaeth, yn hytrach na'i ddosbarthu fel elw.

Mae gan y cleifion ddau gyfarwyddwr ar hyn o bryd, ac un ohonyn nhw yw'r Cadeirydd. Mae'r holl aelodau staff yn aelodau cyswllt (oherwydd y cyfyngiadau sy'n ymwneud â phensiynau'r GIG) ac maent yn ethol cyfarwyddwyr i fod yn aelodau o'r Bwrdd bob dwy flynedd. Yn ogystal, mae gan sefydliadau partner sedd ar y Bwrdd.

### Gwasanaethau hamdden a diwylliannol

Mae'r sector gwasanaethau hamdden yn sector lle mae cwmnïau eisoes wedi dechrau deillio o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i sefydlu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol newydd.

Bu'r Comisiwn yn archwilio profiad pedwar sefydliad gwahanol ym maes gwasanaethau hamdden, ac roedd yn edmygu llwyddiant y sefydliadau, eu harloesedd wrth ddarparu gwasanaethau, a'r berthynas yr oeddent yn ei chynnal â'r awdurdod lleol yr oeddent wedi deillio ohono. Roedd y Comisiwn hefyd yn cydnabod potensial diwydiannau diwylliannol, gan fod nifer cynyddol o fentrau cydweithredol yn rhan o weithgareddau diwylliannol, megis orielau, theatrau, consortia arlunwyr a dylunwyr a chyfryngau lleol.

Daethom i'r casgliad bod potensial ym maes gwasanaethau hamdden a diwylliannol i ddatblygu mentrau cydweithredol a chydfuddiannol, os cânt y cymorth priodol a'r telerau contract priodol ag awdurdodau lleol.

## Nwyddau a gwasanaethau eraill

Mae llawer o sectorau economaidd eraill lle ceir potensial i ddatblygu busnesau cydweithredol a chydfuddiannol – yn wir, gall pob sector, ac mae pob sector, gan gynnwys y sector gweithgynhyrchu, yn cynnwys cwmnïau cydweithredol. Un o'r ffyrdd pwysicaf y gall busnesau ddod yn gwmnïau sydd dan berchnogaeth gydweithredol neu gydfuddiannol yw sicrhau bod busnesau sy'n bodoli eisoes yn cael eu prynu gan y gweithwyr, yn enwedig pan fydd perchennog presennol y busnes yn ymddeol.

## Achosion lle caiff cwmnïau eu prynu gan y gweithwyr

Mae olyniaeth busnesau'n broblem fawr sy'n wynebu economi Cymru[84]. Dywedodd Canolfan Cydweithredol Cymru wrth y Comisiwn fod 29 y cant o fusnesau Cymru (oddeutu 15,000 o fusnesau) wedi bod yn eiddo i'r un perchennog am dros un mlynedd ar hugain. Mae'r perchnogion hynny'n debygol o ystyried ymadael â'u busnes yn y dyfodol agos, a'r opsiynau sydd ar gael iddynt yw trosglwyddo'r busnes i aelodau eraill o'r teulu, gwerthu'r busnes i fusnes arall, ecwiti preifat neu ryddhau cyfranddaliadau i'r farchnad, neu gau'r busnes. Mae llawer o risg ynghlwm wrth drosglwyddo busnes, gan fod microfusnesau a busnesau bach a gaiff eu rheoli gan y perchnogion yn fwy tebygol na busnesau eraill o fethu â chael eu trosglwyddo.

Nodwyd bod perchnogaeth gan y gweithwyr yn gyfle o bwys, sydd hefyd yn cynnig manteision economaidd sylweddol[85]. Yng Nghymru, gallai perchnogaeth gan y gweithwyr sicrhau bod perchnogaeth ar fusnes yn aros yn lleol, gan gadw cyfoeth a'i rannu yn decach. Mae sicrhau bod cwmnïau sy'n bodoli eisoes yn cael eu prynu gan y gweithwyr yn ddull amlwg o gynyddu perchnogaeth gan weithwyr. Felly, daeth y Comisiwn i'r casgliad y dylai perchnogaeth gan weithwyr, drwy achosion lle caiff busnesau eu prynu gan y gweithwyr, fod yn elfen bwysig o ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.

## Amaethyddiaeth, coetiroedd a phrosesu bwyd

Mae llawer o gwmnïau cydweithredol amaethyddol Cymru wedi'u sefydlu ers amser maith, ac maent hefyd ymhlith y busnesau cydweithredol mwyaf sydd yng Nghymru. Mae mentrau cydweithredol diweddar, megis Pontbren Farmers Co-operative[86], wedi ymuno â hwy erbyn hyn. Ar draws y DU, mae gan gwmnïau cydweithredol amaethyddol drosiant sy'n werth dros £5.3 biliwn[87] ac mae Cymdeithas Sefydliadau Amaethyddol Cymru yn amcangyfrif bod trosiant 20 cwmni cydweithredol amaethyddol Cymru yn werth £232.5 miliwn[88]. Mae manteision cydweithredu i ffermwyr yn hysbys iawn, ac maent yn cynnwys arbedion maint wrth brynu mewnbwn, gwaith marchnata mwy effeithiol a manteision y gwerth ychwanegol sy'n gysylltiedig â phrosesu.

Tynnodd trafodaethau'r Comisiwn â thri chwmni cydweithredol amaethyddol sylw at y pwysau economaidd sylweddol iawn yr oeddent yn ei wynebu. Er bod polisi cyffredinol a'r amgylchedd economaidd yn effeithio'n sylweddol ar y sector, gellir cymryd camau o hyd i gryfhau cydweithredu.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod amaethyddiaeth, coedwigaeth a phrosesu bwyd yn sectorau hanfodol bwysig y mae arnynt angen cymorth i arloesi ac arallgyfeirio yn wyneb pwysau economaidd sylweddol.

---

84 W. Davies a J. Michie (2013) Employee ownership: Defusing the business succession time-bomb in Wales. Ar gael ar: http://www.walescooperative.org/employeeownershipreport

85 G. Nuttall (2013) Sharing Success: the Nuttall Review of Employee Ownership https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/31706/12-933-sharing-success-nuttall-review-employee-ownership.pdf

86 Gweler er enghraifft http://www.pontbrenfarmers.co.uk/

87 Co-operatives UK, Tystiolaeth ysgrifenedig

88 Cymdeithas Sefydliadau Amaethyddol Cymru (2011) Cyflwyniad i Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gwmnïau Cydweithredol, 19 Hydref. Ar gael ar: http://www.cooperatives-wales.coop/who-we-are/assembly-cross-party-group/8th-meeting-october-19th-2011/

## Tir

Mae hanes hir yn perthyn i'r egwyddor o berchnogaeth gymunedol ar dir, yng nghefn gwlad er mwyn ehangu mynediad i dir at ddibenion ffermio, ac mewn dinasoedd er mwyn darparu tai fforddiadwy. Mae Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn galluogi unrhyw gynnydd yng ngwerth tir i fynd i'r gymuned yn hytrach na pherchnogion unigol[89].

Yng Nghymru, dechreuodd Gardd-bentref Rhiwbeina yng Nghaerdydd fel cwmni cydweithredol[90], ac yn fwy diweddar mae nifer o Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol wedi datblygu gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru[91]. Yn ogystal, mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn cefnogi wyth o brosiectau tai cydweithredol 'arloesol' sy'n cynnwys rhywfaint o berchnogaeth gymunedol ar dir.

Mae'r Comisiwn o'r farn bod potensial i ddatblygu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol ymhellach er mwyn diwallu anghenion o ran tai mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd, ac er mwyn cefnogi gwaith datblygu cynaliadwy lleol.

## Casgliad

Mae'n amlwg bod cryn botensial i ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru. Mae'r potensial hwn yn bodoli ym mron pob sector o'r economi, ond mae rhai sectorau lle ceir sylfaen gref eisoes ar gyfer twf pellach, megis yn y sector tai cymdeithasol; manteision cymdeithasol sylweddol, megis yn y sector gwasanaethau ariannol personol; neu botensial economaidd, megis mewn achosion lle caiff cwmnïau eu prynu gan y gweithwyr. Er bod modd datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ar draws yr economi, mae'r Comisiwn o'r farn bod angen cymryd camau gweithredu penodol i wireddu'r potensial yn y sectorau a gafodd eu hystyried.

Wrth ystyried pob sector, nodwyd nifer o feysydd cyffredin lle dylid gweithredu. Roedd y meysydd hynny'n cynnwys yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol; yr angen am arbenigedd mewn datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn ogystal ag arbenigedd sy'n benodol i'r sector; mynediad at gyllid, yn enwedig ar gyfer datblygiadau yn ystod y camau cynnar; rôl caffael; yr angen am ddeddfwriaeth a pholisïau cefnogol; ac yn olaf, ond nid yn lleiaf o bell ffordd, pwysigrwydd allweddol arweinyddiaeth, gwaith llywodraethu ac arloesi.

Mae'r adran nesaf yn nodi argymhellion y Comisiwn ar gyfer gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a sicrhau bod Cymru yn genedl wirioneddol gydweithredol.

89 David Wedzel, Tystiolaeth ysgrifenedig

90 Co-operatives and Mutuals Wales, Tystiolaeth ysgrifenedig

91 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) Community Land Trusts. Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: Hysbysiadau Hwylus. Ar gael ar: http://www.assemblywales.org/qg10-0014.pdf

# 4. Sicrhau Newid Sylweddol

Mae'r Comisiwn o'r farn na fydd dibynnu ar gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol i ddatblygu'n naturiol yn ddigon i weddnewid economi Cymru. Yn syml iawn, nid oes digon o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru ar hyn o bryd i sicrhau'r màs critigol hwnnw. Rydym yn canmol y gwaith caled sylweddol iawn a wnaed gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac eraill a greodd ac a gynhaliodd y mentrau cydweithredol a chydfuddiannol sy'n bodoli heddiw. Ond nid yw'r gwaith hwnnw, ac ymdrechion y sector ei hun, yn ddigon i gyflawni'r newid sylweddol sy'n ofynnol. Mae angen gwneud llawer mwy.

Mae rhanbarthau cydweithredol llwyddiannus mewn mannau eraill wedi datblygu seilwaith cefnogol sy'n cynnwys unedau arbenigol sy'n darparu gwybodaeth, newyddion, cyngor, syniadau a chyllid ar gyfer yr economi gydweithredol yn ei chyfanrwydd. Mae cyrff cyfryngol allanol fel y rhain yn hanfodol os yw cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol bach a chanolig eu maint am fod yn gystadleuol yn y tymor hir. Ond yng Nghymru, ar wahân i Ganolfan Cydweithredol Cymru, mae'r seilwaith o gyrff cyfryngol sy'n gweithio gyda chwmnïau cydweithredol yn wan.

Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r pwysau ariannol difrifol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, ac mae'n ymwybodol o'r angen i wneud sefydliadau cyhoeddus yn fwy effeithlon a sicrhau bod polisïau'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni, ni ellir cyfiawnhau creu sefydliadau newydd. Ar adeg pan fo cyllid cyhoeddus dan bwysau mor ddifrifol, yr hyn sy'n bwysig yw bod swyddogaethau presennol cyrff cyfryngol sy'n gweithio gyda chwmnïau cydweithredol yn cael eu datblygu'n graff, gan ddefnyddio sefydliadau cyfredol sydd â'r capasiti a'r profiad gofynnol ac sy'n cyfuno'r ysbryd entrepreneuraidd angenrheidiol â gwerthoedd cydweithredol.

Er gwaetha'r llymder presennol, rydym yn rhagweld y bydd yn rhaid i'r sector cyhoeddus chwarae rôl ganolog fel partner yn y gwaith o ddatblygu'r sector cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, gan ddarparu cyllid sefydlu i ddatblygu'r sector a gweithio gyda chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol presennol a newydd fel partneriaid busnes.

Mae argymhellion y Comisiwn yn canolbwyntio ar greu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer sector cydweithredol a chydfuddiannol llewyrchus yng Nghymru. Nid ydynt fel rheol yn mynd i'r afael â materion gweithredol manwl. Mae'r argymhellion wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru a gomisiynodd yr adroddiad hwn ac a fydd yn gyfrifol am arwain a chefnogi'r newid sylweddol sy'n ofynnol, ac maent wedi'u cyfeirio at y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol ei hun sy'n gyfrifol am ddadlau dros newid a sicrhau bod y newid hwnnw'n digwydd ar lawr gwlad.

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, daeth y Comisiwn i'r casgliad bod saith maes allweddol y mae angen gweithredu ynddynt:

- Addysg ar gyfer cydweithredu
- Cyngor a chymorth
- Cyllid buddsoddi
- Tir ac asedau
- Caffael
- Gwybodaeth ac arloesi
- Rhwydweithiau ac eiriolaeth.

## Addysg ar gyfer cydweithredu

Cydnabu'r Comisiwn fod hanes y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol yn fyd-eang wedi dangos mai'r ffordd orau o annog entrepreneuriaid cydweithredol yw drwy gael pobl ddysgedig sydd â gwerthoedd a sgiliau cydweithredol. Bu i ni nodi bod addysg wedi chwarae rôl allweddol yn natblygiad y sector cydweithredol a chydfuddiannol llwyddiannus sydd yn Mondragon, a daethom i'r casgliad bod yn rhaid i waith dysgu am werthoedd, egwyddorion a sgiliau cydweithredu fod yn elfen sylfaenol o unrhyw strategaeth sydd gan Gymru i greu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol cynaliadwy.

Clywodd y Comisiwn fod lefel yr ymwybyddiaeth gyffredinol o gwmnïau cydweithredol yn uchel, a bod y cyhoedd yn eu hystyried yn gwmnïau y gellir dibynnu arnynt. Yn nhystiolaeth ysgrifenedig Canolfan Cydweithredol Cymru[92] nodwyd bod arolwg a gynhaliwyd gan Co-operatives UK yn 2009 wedi gweld bod y cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o gwmnïau cydweithredol ac yn deall eu hegwyddorion, ond bod llai o ddealltwriaeth o'r model busnes[93]. Adleisiwyd y farn honno gan The Co-operative Group ac eraill. Roedd y Comisiwn yn teimlo bod barn y cyhoedd yn cael ei llywio gan y ffaith bod cwmnïau cydweithredol defnyddwyr mor amlwg yn y DU.

Roedd y Comisiwn o'r farn bod angen gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision penodol cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, os ydym am weld cynnydd yn y gefnogaeth ar lawr gwlad o blaid newid ac os ydym am weld hadau busnesau cydweithredol y dyfodol yn cael eu hau. Roeddem hefyd o'r farn bod angen dyfnhau dealltwriaeth pobl o'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol, a sicrhau bod mwy o unigolion yn meddu ar sgiliau ym maes busnes cydweithredol, o sgiliau'n ymwneud â'r agweddau cyfreithiol i rai'n ymwneud â gwaith cyfrifyddu a rheoli, er mwyn cyfrannu at gynaliadwyedd tymor hir cwmnïau o'r fath.

Ar hyn o bryd, nid yw dysgu am gwmnïau cydweithredol a dysgu sut mae cydweithredu yn rhan o'r cwricwlwm ffurfiol na gwerthoedd ysgolion. Cawsom ein calonogi gan raglen The Co-operative Group, *Inspiring Young People*, sy'n hybu gwerthoedd cydweithredol mewn ysgolion, ond mae'n anochel mai gweddol fach yw ei heffaith. Mae canlyniad hynny yng Nghymru yn debyg i'r canlyniad yn yr Alban, a ddisgrifiwyd fel a ganlyn mewn sylw gan Ymddiriedolaeth Addysg Gydweithredol yr Alban:

> *Mae'n hollol bosibl treulio 20 mlynedd yn system addysg yr Alban, a mentro allan i'r byd mawr gyda chymhwyster Meistr, heb ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o gwbl ynghylch mentrau a sefydliadau amgen megis cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol neu gwmnïau sydd dan berchnogaeth y gweithwyr.*[94]

Nododd y Comisiwn y gellid gwneud llawer mwy i gefnogi gwaith dysgu am gydweithredu a dysgu trwy gydweithredu. Er enghraifft, mae Ymddiriedolaeth Addysg Gydweithredol yr Alban yn darparu deunyddiau dysgu a chymorth, ac erbyn hyn mae 40 y cant o ysgolion yr Alban yn defnyddio ei hadnoddau[95]. Yn Lloegr, mae'r Gymdeithas Gydweithredol i Ysgolion yn cynorthwyo ysgolion i fabwysiadu gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol yn y system a gynhelir, ac yn cynorthwyo'r ysgolion hynny sydd â threfniadau llywodraethu eraill hefyd[96].

92 Canolfan Cydweithredol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig, t. 8
93 Co-operatives UK, Tystiolaeth ysgrifenedig, t. 8
94 Ymddiriedolaeth Addysg Gydweithredol yr Alban, Tystiolaeth ysgrifenedig, t. 1
95 Op. cit.
96 Op. cit.

> "Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai ethos cydweithredol fod yn brif egwyddor drefniadol y system addysg yng Nghymru."

Daethom i'r casgliad bod ymgorffori gwerthoedd cydweithredol mewn addysg yn hanfodol os ydym am greu cenedlaethau o 'gydweithredwyr' yn y dyfodol i symud y model yn ei flaen. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai ethos cydweithredol fod yn brif egwyddor drefniadol y system addysg yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hynny, dylai ysgolion fynd ati mewn modd amlwg i fabwysiadu egwyddorion a gwerthoedd cydweithredol, a allai ddigwydd yn y system ysgolion a gynhelir, gan integreiddio cydweithredu ym mhob agwedd ar yr ysgol a defnyddio model llywodraethu lle ceir amryw randdeiliaid.

Dylai Bagloriaeth Cymru fod yn gyfrwng i ddysgu am fodelau busnes ac egwyddorion cydweithredol a chydfuddiannol. Bydd angen cefnogaeth ar y Fagloriaeth ac ar waith addysgu ehangach am gydweithredu, a dylai'r gefnogaeth honno gael ei darparu gan y consortia addysg rhanbarthol.

Ym maes addysg bellach ac addysg uwch, nododd y Comisiwn fod pob prifysgol yng Nghymru yn cynnig gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes neu gymwysterau cyfwerth, ond eto, nid yw'r rhain fel rheol yn cynnwys modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol, sy'n golygu bod diffyg dealltwriaeth ynghylch cydweithredu'n parhau yn y gymuned fusnes. Nododd y Comisiwn fod rhai sefydliadau mewn rhannau eraill o'r DU ac yn yr Unol Daleithiau wedi sefydlu graddau Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes sy'n ymdrin ag astudiaethau cydweithredol. Daeth y Comisiwn i'r casgliad y dylai cymwysterau arbenigol, lefel uwch mewn menter gydweithredol fod ar gael yng Nghymru, ac y dylent gael eu cynnig yn ddelfrydol mewn ysgol benodol yn y brifysgol sydd ag ethos cydweithredol. At hynny, dylid cynnwys modiwlau ar fenter gydweithredol a chydfuddiannol mewn cymwysterau busnes a rheoli prif ffrwd. Croesawodd y Comisiwn botensial dysgu digidol sy'n gallu bod yn gost-effeithiol ac sy'n ei gwneud yn bosibl trosglwyddo gwybodaeth am gwmnïau cydweithredol yn rhyngwladol.

## Argymhellion

Mae'r Comisiwn yn argymell:

1. Y dylai ethos cydweithredol fod yn brif egwyddor drefniadol y system addysg yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hynny, dylai ysgolion fynd ati mewn modd amlwg i fabwysiadu egwyddorion a gwerthoedd cydweithredol, a allai ddigwydd yn y system ysgolion a gynhelir, gan integreiddio cydweithredu ym mhob agwedd ar yr ysgol. Dylid annog trefn lywodraethu lle ceir amryw randdeiliaid mewn ysgolion cydweithredol.

2. Dylid ymgorffori gwaith dysgu am gydweithredu, sy'n amlwg ym mhob rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid, yn y cwricwlwm cynradd ac uwchradd. Dylai Bagloriaeth Cymru gynnwys dysgu am egwyddorion cydweithredol a chydfuddiannol a dysgu trwy'r egwyddorion hynny. Dylai'r gefnogaeth ar gyfer dysgu am gydweithredu gael ei darparu gan y consortia addysg rhanbarthol.

3. Dylid sicrhau cynnydd sylweddol mewn gwaith dysgu am fenter gydweithredol ym maes addysg uwch. Er mwyn cyflawni hynny:

a. Dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sicrhau bod o leiaf un cymhwyster busnes lefel uwch yn cael ei ddarparu (e.e. Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes) ym maes modelau busnes cydweithredol, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael, a dylid cyflwyno'r cymhwyster yn ddelfrydol mewn amgylchedd cydweithredol.

b. Dylai cymwysterau busnes a rheoli prif ffrwd roi'r un pwyslais ar fodelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol ag a roddir ar fentrau prif ffrwd sy'n gwneud elw.

c. Dylai sefydliadau addysg uwch weithio gyda sefydliadau cydweithredol i archwilio'r potensial ar gyfer ysgoloriaethau a ffyrdd eraill o gydweithio.

d. Dylai sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach hybu modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol i fyfyrwyr yn rhan o drafodaethau ynghylch gyrfaoedd a'r agenda gyflogadwyedd.

## Cyngor, cymorth a datblygu cwmnïau cydweithredol

Er mwyn sefydlu a gweithredu mewn marchnadoedd anodd, mae angen cyngor a chymorth ar gwmnïau cydweithredol os ydynt am oroesi a ffynnu. Mae cymorth o safon yn allweddol i lwyddiant mewn llawer o sectorau. Mae'r Comisiwn wedi nodi dau fath o gymorth sy'n ofynnol:

- Cymorth arbenigol ynghylch sefydlu a datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol;
- Cymorth penodol i sector er mwyn datblygu mentrau cydweithredol a chydfuddiannol mewn sectorau sy'n tyfu.

### Cyngor, cymorth a datblygu

Gwelodd y Comisiwn fod ar fusnesau cydweithredol a chydfuddiannol angen cyngor sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion penodol fel cwmnïau cydweithredol, e.e. cyngor ynghylch strwythurau cyfreithiol, cynllunio busnes, aelodaeth ac opsiynau o ran cyfranddaliadau ac ati, yn ogystal â chyngor ynghylch y materion y bydd busnesau eraill yn gofyn am help yn eu cylch yn aml, e.e. marchnata, rheoli llif arian a chredyd.

Cafodd y Comisiwn wybod bod darparwyr cymorth busnes prif ffrwd yn ei chael yn anodd weithiau rhoi cymorth i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, oherwydd nad oes ganddynt wybodaeth arbenigol am yr opsiynau o ran eu ffurf gyfreithiol, ac oherwydd nad ydynt yn aml yn deall y broses sy'n rhan o ffurfio cwmni cydweithredol neu gydfuddiannol. Eglurodd Mutuo fod creu cwmni cydfuddiannol yn llawer mwy na gweithrediad i sefydlu endid newydd – mae'n golygu bod cwmni cydfuddiannol newydd yn datblygu o lawr gwlad ac mae'n golygu proses o newid diwylliannol. Yn ôl Mutuo:

*[mae creu cwmni cydfuddiannol] yn gofyn am lawer o arloesi gan y sawl sy'n mynd drwy'r broses o bontio i'r drefn newydd o ran perchnogaeth, llywodraethu a gweithredu. Mae'n rhaid iddynt ddarganfod am y tro cyntaf sut mae cyflawni eu gwaith mewn modd cydweithredol a chydfuddiannol, sut mae gweithio gyda staff a defnyddwyr mewn cyfres hollol newydd o gydberthnasau lle mae gan y ddwy garfan (a charfanau eraill hefyd mewn rhai achosion) rolau ffurfiol yn y sefydliad newydd.*[97]

97 Mutuo, Tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 2.10

Eglurodd Duncan Forbes, Prif Weithredwr Tai Cymunedol Bron Afon, sut mae busnesau cydweithredol yn wahanol i fusnesau prif ffrwd:

> *Nid mater syml o redeg busnes yw rhedeg cwmni cydweithredol. Mae angen trafod y strwythurau o ran perchnogaeth, yn enwedig grym a rheolaeth, diwylliant, gwerthoedd a chydberthnasau. Os na weithiwch chi ar y pethau hynny'n barhaus, mewn enw yn unig ac nid mewn realiti y bydd y cwmni'n un cydweithredol.*[98]

Yn yr un modd, dyma a ddywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

> *Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod ar gwmnïau cydweithredol sy'n perthyn i gymunedau a staff angen llawer iawn o gymorth er mwyn "cychwyn arni", megis hyfforddiant a datblygu o ran sgiliau a gwybodaeth, cymorth busnes a chymorth a hyfforddiant un i un.*[99]

Gwelodd y Comisiwn o'i arolwg o gwmnïau cydweithredol[100] fod tua hanner y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol wedi dweud y byddent yn hoffi cael cymorth gan gwmni cydweithredol neu gydfuddiannol arall, a dywedodd 56 y cant ohonynt y byddent yn hoffi cael cymorth gan ymgynghorydd. Daeth y Comisiwn i'r casgliad y dylai'r model a ddefnyddir i ddarparu cyngor a hyfforddiant gynnwys gwaith trosglwyddo gwybodaeth a mentora, h.y. un cwmni cydweithredol yn rhoi cymorth i un arall (gyda thâl ariannol priodol).

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn unfrydol bod ar gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol angen cyngor sy'n benodol i'w model busnes nhw; er enghraifft, dywedodd Sefydliad Plunkett:

> *Mae Plunkett yn teimlo'n gryf mai'r sawl sy'n gwybod am y gwahanol fathau o fentrau cydweithredol a chydfuddiannol ac sy'n eu deall sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth busnes i fentrau cydweithredol a chydfuddiannol. Diben hynny yw sicrhau dealltwriaeth ynghylch y 'gwahaniaeth cydweithredol' y gall mentrau cydweithredol a chydfuddiannol ei ddatgloi.*[101]

Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod darparu cyngor a chymorth busnes a gwasanaeth mentora arbenigol, sy'n diwallu anghenion penodol cwmnïau cydweithredol, yn waith sydd â rôl hollbwysig i'w chwarae yn natblygiad a ffyniant y sector yng Nghymru.

Cydnabu'r Comisiwn lwyddiannau sylweddol y sawl sy'n ymwneud â chynorthwyo datblygiad cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, yn enwedig llwyddiannau Canolfan Cydweithredol Cymru. Mae cyrff eraill sy'n darparu cymorth cyffredinol i'r sector yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, The Co-operative Enterprise Hub a Rhaglen Adeiladu Menter Cartrefi Cymunedol Cymru.

Er hynny, daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen cryfhau'r cymorth sydd ar gael i'r sector er mwyn sicrhau'r newid sylweddol yr ydym am ei weld. Nid yw'r capasiti sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigon i ateb y galw presennol. Bu i ni gydnabod y dylai cymorth fod ar gael i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol bach a mawr, nid adeg eu sefydlu'n unig ond gydol eu hoes, ac y dylai gynnwys gwasanaeth mentora, cymorth i

98 Tai Cymunedol Bron Afon, Tystiolaeth ysgrifenedig, t. 5

99 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 25

100 L. Burnett (2013) Co-operatives and Mutuals in Wales: Adherence to the Recognised Principles of the Co-operative Movement. Ymchwil ar ran y Comisiwn

101 Sefydliad Plunkett, Tystiolaeth ysgrifenedig, t. 8

gwmnïau cydweithredol gan gwmnïau cydweithredol, a chamau rhagweithiol i ddatblygu busnesau cydweithredol.

### Cymorth penodol i sector

Nododd y Comisiwn fod gofynion penodol gan sawl sector sydd â'r potensial i dyfu, er enghraifft, oherwydd y farchnad y maent yn gweithredu ynddi neu'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r sector hwnnw.

### Ynni

Ym maes ynni, dywedodd tair menter gymdeithasol wrth y Comisiwn eu bod yn wynebu materion technegol cymhleth, megis trwyddedau a gwaith trwyddedu, anawsterau wrth geisio cael cyllid buddsoddi, yn enwedig yn ystod y camau datblygu a chynllunio, a fframwaith cynllunio cymhleth. Mae'r Comisiwn yn croesawu'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd trwy brosiect Ynni'r Fro yn ogystal â thrwy Adfywio Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru, ond mae o'r farn bod lle i gynyddu'r cymorth arbenigol sydd ar gael, yn enwedig ynghylch materion technegol, darparu cyllid ar gyfer y camau cynnar, manteisio ar bob math o ynni adnewyddadwy a dysgu o arfer gorau.

### Siopau a gwasanaethau cymunedol

Yn achos siopau cymunedol, cafodd y Comisiwn wybod bod angen llawer mwy o ymwybyddiaeth o rôl cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn y sector hwn, bod angen cymorth a gwasanaeth mentora arbenigol yn ystod y camau cynnar i sefydlu gwahanol fathau o gwmnïau cydweithredol cymunedol, a bod angen cymorth a chyngor ynghylch codi cyfranddaliadau yn y gymuned, er mwyn gallu prynu asedau cymunedol. Mae'r Comisiwn yn croesawu gwaith Sefydliad Plunkett ac eraill i gefnogi datblygiad siopau cymunedol a gwasanaethau eraill.

### Gwasanaethau ariannol personol

Yn achos gwasanaethau ariannol personol, mae angen gweithredu er mwyn helpu undebau credyd i ymateb i'r her sy'n ymwneud â chynaliadwyedd[102] [103] ac, fel y dadleuodd ABCUL, er mwyn datblygu gwell cynnyrch ariannol i ddiwallu anghenion yr aelodau (e.e. o ran bancio ar-lein, dros y ffôn ac ar declynnau symudol) a datblygu cysylltiadau â swyddfeydd post lleol, ac er mwyn cefnogi cydweithio rhwng undebau credyd i leihau costau a chynyddu refeniw. Mae gan ABCUL ac ACE (Access to Credit Unions for Everyone) rôl bwysig i'w chwarae o ran cynorthwyo eu haelodau i'r perwyl hwn, yn ogystal â Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol megis Robert Owen a Moneyline Cymru.

At hynny, mae angen mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu mathau newydd eraill o gynnyrch ariannol, megis Benthyciadau Arbrisiant Eiddo, ac arian cymunedol.

---

102 Old Bell 3 Ltd (2012) Gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd – Adroddiad Interim Terfynol. Ar gael ar http://cymru.gov.uk/docs/caecd/research/130312-access-financial-services-credit-unions-project-interim-cy.pdf

103 ABCUL, Tystiolaeth ysgrifenedig

Mae'r Comisiwn yn pryderu ynghylch y prinder cyngor sydd ar gael i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn ystyried modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn cadarnhau mai prin y byddai awdurdodau lleol a chyrff eraill yn ystyried model cydweithredol neu gydfuddiannol wrth ystyried dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wrthym mai diffyg adnoddau ac arbenigedd oedd yn rhannol gyfrifol am hynny:

> *mae angen adnodd wedi'i dargedu a fydd yn arwain cwmnïau deillio posibl trwy'r broses. Dylai fod modd i'r adnodd hwn gynnig gwasanaeth mentora parhaus hefyd, trwy rwydwaith o sefydliadau tebyg yn ddelfrydol a all gynnig profiad ymarferol.*[104]

Roedd y dystiolaeth yn awgrymu y gellid gwneud llawer iawn mwy i feithrin cydweithredu yn ysgolion a cholegau Cymru. Roedd y syniadau a gafwyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o egwyddorion cydweithredu a datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer menter gydweithredol effeithiol; gwneud newidiadau i'r cwricwlwm ac ystyried newidiadau i fodelau llywodraethu ysgolion gan ystyried modelau sy'n cynnwys amryw randdeiliaid; cynyddu cydweithio â'r rhieni a'r gymuned a chydweithio rhwng ysgolion er mwyn codi safonau. Cynigiodd sawl tyst 'fodel Cymreig' ar gyfer ysgol gydweithredol.[105] [106]

Ym maes gofal cymdeithasol, roedd y dystiolaeth a gafwyd yn nodi problemau'n ymwneud â chyllid, sef y costau cyfalaf uchel sy'n gysylltiedig â sefydlu busnes yn y sector cartrefi preswyl, a'r farchnad, yn enwedig y ffaith mai awdurdodau lleol yw prif brynwyr gofal yn y farchnad yng Nghymru, a'r pwysau sydd ar ffïoedd. Dywedodd darparwyr gofal preifat wrthym fod gofal preswyl yn fwy proffidiol na gofal cartref[107], ond nododd y Comisiwn fod polisi cyhoeddus yn ffafrio rhoi gofal i bobl yn eu cartrefi eu hunain, ac mai dyna sydd orau gan bobl hŷn hefyd. Dysgodd y Comisiwn am ffyrdd o addasu i bwysau, megis cynyddu maint[108], annog mentrau lleol ar raddfa fach a gaiff eu rheoli gan y cleientiaid eu hunain[109], a defnyddio gwirfoddolwyr yn lle staff cyflog[110].

Rhoddwyd pwys mawr ar bwysigrwydd cynnwys defnyddwyr gwasanaethau mewn cwmnïau cydweithredol sy'n darparu gofal cymdeithasol. Dadleuodd y Fforwm Datblygu Cwmnïau Cydweithredol Cymdeithasol yn gryf fod yn rhaid i gwmnïau cydweithredol cymdeithasol gynnwys llais y defnyddwyr a'r gofalwyr yn llawn wrth wraidd eu trefniadau llywodraethu, ac y dylent fod yn barod i gynnwys gweithwyr ac undebau llafur[111]. Felly, mae cwmnïau cydweithredol sydd ag amryw randdeiliaid yn berthnasol iawn ym maes gofal cymdeithasol. Nododd y Comisiwn hefyd y potensial i gyfuno gwasanaethau gofal cymdeithasol â gwasanaethau eraill, yn enwedig tai, gan adeiladu ar fentrau presennol rhai cwmnïau cydfuddiannol ym maes tai.

---

104 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Tystiolaeth ysgrifenedig
105 The Co-operative Group, Tystiolaeth ysgrifenedig
106 The Co-operative College, Tystiolaeth ysgrifenedig
107 Fforwm Gofal Cymru, Tystiolaeth lafar
108 Care and Share Associates, Sunderland, Tystiolaeth lafar
109 Mick Taylor, Ymgynghorydd ar Ofal Cydweithredol, Tystiolaeth lafar
110 John Restakis, Cyfarwyddwr Gweithredol, The British Columbia Co-operative Association, Tystiolaeth lafar
111 Fforwm Datblygu Cwmnïau Cydweithredol Cymdeithasol, Tystiolaeth ysgrifenedig

Nododd y Comisiwn fod Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi Codau Ymarfer mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai Codau Ymarfer gynnwys, yn eu meini prawf ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, yr angen i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a staff wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Daethom i'r casgliad bod angen newid diwylliant sylweddol ac arweinyddiaeth gref, ochr yn ochr â deddfwriaeth alluogi ac arweiniad, er mwyn gwireddu'r newidiadau yr ydym yn dymuno eu gweld ym maes gofal cymdeithasol. Bydd angen cymorth ac anogaeth ragweithiol i sbarduno gwaith datblygu cwmnïau cydweithredol ym maes gofal cymdeithasol ac i ddysgu o brofiad ac o rannau eraill o'r DU a'r byd, a ddylai gynnwys cyllid priodol, arbenigedd a phartneriaethau ag asiantaethau eraill.

O ran iechyd, mae'r materion a godwyd yn y sector yn amlwg yn sylweddol ac yn gymhleth, ac mae'r Comisiwn o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu mwy o waith ynghylch potensial y sector.

## Achosion lle caiff cwmnïau eu prynu gan y gweithwyr

Clywodd y Comisiwn fod y problemau a wynebir wrth drosglwyddo busnesau i'r gweithwyr yn gymhleth, a bod y risg o fethu yn rhan annatod o'r broses drosglwyddo. Bu i ni nodi bod gan Ganolfan Cydweithredol Cymru dîm sy'n arbenigo ar berchnogaeth gan weithwyr, sydd â phrofiad o ddarparu cyngor a chymorth a helpu i sicrhau cyllid buddsoddi, yn enwedig pan gaiff proses brynu ei chyflawni fesul cam. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen gweithredu i fodloni gofynion penodol achosion lle caiff cwmnïau eu prynu gan y gweithwyr.

## Amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth

Roedd y dystiolaeth a gafodd y Comisiwn ynghylch amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth[112] yn dangos bod angen i gwmnïau cydweithredol, er eu bod wedi ennill eu plwyf i raddau helaeth, addasu i hinsawdd economaidd anodd, datblygu i gydweithredu ar fwy na phrynu a marchnata, ac arloesi os ydynt am lwyddo. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen dwysáu'r cymorth i gwmnïau cydweithredol amaethyddol, gan wneud gwaith pellach i ddiffinio'r union gamau sy'n ofynnol, ac y dylid cysylltu hynny â'r gwaith ehangach o ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.

## Tir

Cydnabu'r Comisiwn fod profiad rhannau eraill o'r DU yn dangos bod angen cymorth i ddatblygu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol lleol, gan gynnwys arbenigedd mewn datblygu tai, mynediad at gyllid a mynediad at dir rhad.

## Gwybodaeth arbenigol

Nododd y Comisiwn fod sawl sefydliad yn darparu cymorth a chyngor sy'n benodol i sector, megis Sefydliad Plunkett ar gyfer siopau cymunedol, Ynni'r Fro ar gyfer ynni

112 Trafodaethau ac ymweliadau â thair menter

adnewyddadwy cymunedol, Social Investment Business ar gyfer undebau credyd, Supporters Direct ar gyfer ymddiriedolaethau cefnogwyr, gwaith The Co-operative Group yng nghyswllt cwmnïau cydfuddiannol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, a chymorth Canolfan Cydweithredol Cymru ar gyfer cwmnïau cydweithredol ym maes tai ac achosion lle caiff cwmnïau eu prynu gan y gweithwyr. Nid oes gan bob un o'r sefydliadau hyn y proffil uchel na'r capasiti angenrheidiol i gyflawni'r cynnydd sylweddol yr ydym am ei weld yn nifer y mentrau cydweithredol a chydfuddiannol sy'n cael eu ffurfio ac sy'n tyfu. At hynny, ceir sawl sector lle nad oes ffynonellau o wybodaeth arbenigol ar gael ar hyn o bryd – mae hynny'n arbennig o wir yng nghyswllt gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gofal cymdeithasol ac addysg.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad y dylid datblygu a chryfhau rhaglenni cymorth penodol i sector ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, sy'n cynnig mynediad at arbenigedd a chymorth technegol o safon, sy'n hwyluso mynediad at gyllid buddsoddi ac sy'n cynnig cyfle i ddysgu gan gwmnïau cydweithredol eraill sy'n gweithredu yn yr un sector.

Roedd y Comisiwn hefyd o'r farn bod perygl i ddarpar gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol sydd am gael cyngor a chymorth gael eu drysu gan nifer y mentrau a'r darparwyr, ac y gellid osgoi hynny trwy sefydlu pwynt mynediad ar y we i'r rhwydwaith o ddarparwyr, trwy borth y gellid ei alw'n '*Busnes Cymdeithasol Cymru*'.

## Argymhellion

Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid cryfhau'n sylweddol y cyngor a'r cymorth busnes a ddarperir, er mwyn hybu gwaith ffurfio a datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, trwy:

4. Sicrhau dyfodol rhaglenni cynhwysfawr sy'n cynnig cyngor a chymorth busnes i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.
5. Ymestyn y cymorth arbenigol sydd ar gael i helpu cwmnïau cydweithredol i dyfu a datblygu mewn sectorau penodol sydd â'r potensial i dyfu.
6. Annog cwmnïau cydweithredol sy'n bodoli eisoes i gynorthwyo cwmnïau cydweithredol newydd i ddatblygu, naill ai fel cwmnïau deillio, fel cyflenwyr neu fel mentoriaid.
7. Sefydlu porth ar y we – Busnes Cymdeithasol Cymru – i hwyluso mynediad at gyngor a chymorth ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol sydd wedi'u sefydlu eisoes neu sydd yn yr arfaeth.
8. Cryfhau'r cymorth a'r cyngor i reolwyr a gweithwyr cwmnïau sy'n methu â llwyddo ond sy'n hyfyw o safbwynt economaidd, er mwyn ystyried model busnes cydweithredol a chydfuddiannol fel modd i achub y fenter.

## Cyllid buddsoddi

Nododd y Comisiwn nifer o wahanol sefydliadau sy'n darparu cyllid i ariannu dyled, gan gynnwys darparwyr prif ffrwd megis banciau a chymdeithasau adeiladu, darparwyr benthyciadau arbenigol (megis Charity Bank a The Co-operative & Community Finance), darparwyr benthyciadau eraill megis Cronfa Buddsoddi Cymunedol, Cronfa Benthyciadau Eiddo a Chronfa Benthyciadau i Ficrofusnesau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn ogystal â darparwyr grantiau megis cynllun bwrsariaethau Sefydliad Plunkett, y Grant Datblygu Economaidd Cymunedol a gaiff ei arwain gan awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru, a llawer o rai eraill mae'n siŵr. Yn ogystal, nododd y Comisiwn y trefniadau penodol sydd ar waith ar gyfer prosiectau ynni cymunedol yng Nghymru, trwy raglen Ynni'r Fro sy'n darparu grantiau a benthyciadau (yn ogystal â chyngor a gwybodaeth) i fentrau cymdeithasol at ddiben datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol. Clywsom fod rhai undebau credyd yn awyddus i ddatblygu benthyciadau i fusnesau (ac roedd un eisoes yn eu darparu), ond roedd yn well gan eraill atgyfnerthu neu ehangu eu portffolios o fenthyciadau personol.

Cydnabu'r Comisiwn fod llawer o fenthycwyr yn annibynnol ar lywodraeth a bod cael amrywiaeth o ddarparwyr yn bwysig, ond roedd yn pryderu am y risgiau sy'n gysylltiedig â dyblygu darpariaeth a chael darpariaeth dameidiog, a diffyg ymwybyddiaeth o ffynonellau posibl o gyllid.

O ran y graddau y mae cyllid busnes ar gael, awgrymodd rhai darparwyr nad oedd prinder cyllid busnes a bod cyllid ar gael i'r sawl sy'n gallu dangos gwaith cynllunio busnes a chynllunio ariannol cadarn. Dywedodd darparwyr cyllid hefyd nad oes llawer o risg ynghlwm yn gyffredinol wrth fuddsoddi mewn cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, ac ategwyd hynny gan y cyfraddau isel o ddiffyg talu yr adroddwyd amdanynt wrth y Comisiwn.

Gwelodd y Comisiwn fod llawer o'r rheini a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig o'r farn bod diffyg cyllid yn her fawr i dwf cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru. Roedd tystiolaeth Canolfan Cydweithredol Cymru yn cyfeirio at waith ymchwil gan Social Enterprise UK a ganfu fod 44 y cant o fentrau cymdeithasol wedi cael anhawster cael mynediad at gyllid, a dywedodd rhai cwmnïau cydweithredol unigol eu bod wedi ei chael yn anodd cael cyllid, yn enwedig ar gyfer buddsoddiad cyfalaf.

Mae strwythur cwmnïau yn un rheswm pam y mae'n anodd cael cyllid. Nododd Charity Bank fod llawer o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn gwmnïau cyfyngedig drwy warant, ac mai eu hunig ddewis, felly, o safbwynt codi cyllid yw mynd i ddyled. Eto i gyd, gall benthyca fod yn anodd i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol newydd nad ydynt wedi'u profi eu hunain, yn enwedig os yw'r broses sefydlu'n un faith, er enghraifft, fel sydd weithiau'n wir am gwmnïau cydweithredol ym maes ynni adnewyddadwy. Dywedodd Canolfan Cydweithredol Cymru wrthym fod gan grantiau rôl i'w chwarae yng nghyswllt busnesau newydd, a'u bod yn hanfodol i sicrhau bod cyfres o fusnesau newydd yn yr arfaeth.[113]

At hynny, ceir diffyg dealltwriaeth o'r model cydweithredol neu gydfuddiannol. Dywedodd Charity Bank wrthym fod rhai benthycwyr yn mynnu gwarantau personol gan gyfarwyddwyr y cwmni cydweithredol neu gydfuddiannol, gan ddisgwyl i bob pwrpas

113 Canolfan Cydweithredol Cymru, Tystiolaeth lafar

i ymddiriedolwyr sy'n wirfoddolwyr gynnig ecwiti yn eu heiddo preswyl yn warant, heb unrhyw obaith elwa o hynny. Cyfeiriodd Charity Bank at 23 achos o sefydliadau a oedd wedi mynd ato ar ôl i gredyd gael ei wrthod iddynt neu'i gynnig iddynt ar delerau na allent eu fforddio[114].

Mae cost cael mynediad at gyllid yn broblem arall a wynebir gan gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Nododd y Comisiwn fod rhai wedi dweud, hyd yn oed os oes cyllid ar gael, bod cost y gwaith sy'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy gan rai benthycwyr yn gallu golygu bod benthyciadau bach yn aneconomaidd, a bod y ffaith nad yw'r cwmnïau wedi'u profi eu hunain ac na allant gynnig gwarantau weithiau'n gallu atal benthyciadau mawr gan rai benthycwyr. Nododd y Comisiwn fod y 'wasgfa gredyd' wedi effeithio ar gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn ogystal â llawer o fusnesau prif ffrwd.

Yn achos cwmnïau a gaiff eu prynu gan y gweithwyr, dysgodd y Comisiwn fod strategaethau ymadael ar gyfer cyllid ecwiti a chyfalaf menter prif ffrwd fel rheol yn groes i amcanion cwmni sydd dan berchnogaeth y gweithwyr, ac nad yw hyd yn oed cronfeydd cydweithredol arbenigol yn aml yn addas ar gyfer proses brynu fesul cam. Nid oes cymhellion ariannol ar gael chwaith i annog busnesau sydd dan berchnogaeth y gweithwyr i fuddsoddi yn ei gilydd i helpu'r sector i dyfu.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad, er bod cyllid prif ffrwd ar gael mewn egwyddor, bod meini prawf y benthycwyr weithiau mor feichus neu mor amhriodol i'r sector nes bod llawer o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn methu â chael mynediad at y cyllid hwnnw'n ymarferol. Felly, rydym yn cefnogi darparu cyllid ariannu dyledion i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol trwy fenthycwyr arbenigol.

Clywodd y Comisiwn mai un dewis amgen yn lle benthyciadau a grantiau yw codi cyllid ecwiti trwy gyfranddaliadau gweithwyr neu gyfranddaliadau cymunedol. Ar hyn o bryd, darperir cymorth trwy gyfrwng yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn Co-operatives UK (trwy Ganolfan Cydweithredol Cymru), Sefydliad Plunkett a'r Gronfa Cyfranddaliadau Cymunedol Cydweithredol a reolir gan Co-operative & Community Finance. Roedd y Comisiwn o'r farn bod lle i godi proffil cyfranddaliadau gweithwyr a chyfranddaliadau cymunedol a'r defnydd a wneir ohonynt, gan gynnwys y potensial i undebau credyd roi benthyciadau er mwyn i bobl allu eu prynu.

Cafodd y Comisiwn nifer o gynigion eraill i gryfhau a symleiddio'r modd y darperir cyllid i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, a oedd yn amrywio o gronfa i helpu gweithwyr i brynu cwmnïau; i Fenter Cyllid Cydweithredol a fyddai'n caniatáu i bwerau benthyca landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael eu defnyddio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru er mwyn troi cyllid refeniw yn fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer tai a gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol allweddol eraill; i gronfa fenthyciadau gylchol a gaiff ei chyllido gan y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol eu hunain.

Daethom i'r casgliad y dylid cael cronfa benodol o grantiau a benthyciadau ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, a ddylai gynnwys darpariaeth a chronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer achosion lle caiff cwmnïau eu prynu gan y gweithwyr. Fel yn achos cyllid busnes prif ffrwd, byddai'r gronfa yn ategu gwaith benthycwyr megis Charity Bank a banciau eraill, ond byddai'n ymateb i anghenion penodol cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.

114 Charity Bank, Tystiolaeth ysgrifenedig

### Argymhellion

Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid mynd i'r afael â'r angen am gyllid buddsoddi trwy:

9. Greu cronfa o grantiau a benthyciadau – Cyllid Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru – sy'n benodol ar gyfer mentrau cydweithredol a chydfuddiannol a mentrau cymdeithasol eraill, gyda darpariaeth benodol ar gyfer perchnogaeth gan y gweithwyr. Dylai'r gronfa gael ei gweinyddu gan ystod o gyrff cyfryngol ariannol, a dylai fod modd cael mynediad iddi trwy borth Busnes Cymdeithasol Cymru ar y we.
10. Dylai'r sawl sy'n darparu cymorth busnes gydweithio'n agos â chyllidwyr i sicrhau bod cyllidwyr yn deall modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol a bod busnesau cydweithredol a chydfuddiannol yn 'barod ar gyfer buddsoddiad' pan gaiff eu prosiectau eu cyflwyno i'r cyllidwyr.

## Tir ac asedau

Nododd y Comisiwn nad yw Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi gweithredu deddfwriaeth i roi asedau cymunedol sy'n eiddo preifat yn nwylo cymunedau. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cael cyfle i gymryd perchnogaeth a chael cymorth i wneud hynny'n gam cyntaf pwysig tuag at gael cymunedau i ddod ynghyd i reoli'r cyfleusterau sydd bwysicaf iddynt.

Mae gan Gymru gyfle i fynd ymhellach na'r Alban a Lloegr yn y cyswllt hwn, trwy gynnwys clybiau chwaraeon yn asedau cymunedol. Gallai hynny warchod traddodiadau balch clybiau chwaraeon Cymru rhag perchnogion ansensitif. Mae gan awdurdodau lleol Cymru eisoes bwerau i drosglwyddo asedau i berchnogaeth gymunedol.

Fel y trafodwyd yn gynharach, mae gan Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth, gan sicrhau bod datblygiadau'n diwallu anghenion y gymuned a chadw unrhyw gynnydd yng ngwerth asedau er budd y gymuned.

Mae'r cwestiwn ynghylch 'trefniadau cloi asedau' yn hollbwysig. Maent yn sicrhau na ellir gwaredu asedau a fu'n asedau cyhoeddus ac sydd bellach dan berchnogaeth gymunedol, ac maent yn atal asedau rhag cael eu gwerthu am elw ond yn caniatáu iddynt gael eu defnyddio o hyd yn warant ar gyfer benthyca.

### Argymhellion

Mae'r Comisiwn yn argymell:

11. Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried deddfwriaeth i alluogi cymunedau i restru eu hasedau cymunedol a chael y cynnig cyntaf i ddod ag asedau dan berchnogaeth gymunedol. Mewn unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath, dylid ystyried cynnwys clybiau chwaraeon yn asedau cymunedol.
12. Y dylid gwneud gwaith pellach ar gloi asedau er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith.
13. Y dylai Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyllid Datblygu Cymunedol barhau i hybu gwaith datblygu Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol er mwyn buddsoddi yn y maes hwn i alluogi mwy o fuddsoddiadau cyfalaf.

Nododd y Comisiwn fod rhoi cyfle i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol fod yn rhan o waith prynu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gyfle o bwys. Mae sector cyhoeddus Cymru, er enghraifft, yn gwario tua £4.3 biliwn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau allanol[115].

Mae profiad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn dangos effaith bosibl gwaith caffael[116]. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gwario £951 miliwn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau allanol, a chaiff tua 80 y cant o'r arian hwnnw ei gadw yng Nghymru. Mae'r budd anuniongyrchol sy'n deillio o'r gwariant hwnnw'n cyfateb i oddeutu £850 miliwn. Effaith gyfun hynny yw 20,200 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a £570 miliwn mewn gwerth ychwanegol crynswth.

Roedd llawer o'r sefydliadau a soniodd yn eu tystiolaeth am bwysigrwydd caffael yn pwyso am adolygu'r canllawiau ar gaffael cyhoeddus er mwyn galluogi cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol i dendro. Dadleuodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru na fyddai sefydliadau newydd yn gallu dod trwy'r cam cymhwyso am nad oeddent wedi'u profi eu hunain, a dadleuodd nifer o sefydliadau eraill y byddai dull 'oes gyfan' o weithredu'n well na gwerthuso contractau ar sail pris[117]. Dywedodd un sefydliad[118] fod rhai awdurdodau lleol wedi gosod gwasanaethau ar dendr hyd yn oed pan nad oedd hynny'n ofynnol dan reolau'r Undeb Ewropeaidd, a bod nifer y busnesau bach a fu'n llwyddiannus wedi gostwng o ganlyniad i hynny.

Er bod y polisïau a'r gweithdrefnau a argymhellir gan Lywodraeth Cymru a Gwerth Cymru yn aml yn ardderchog ac yn adlewyrchu pryderon cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â rhai economaidd, nododd y Comisiwn fod adolygiad McClelland o gaffael[119] wedi gweld bod problem ynghylch gweithredu canllawiau. Mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau i reolau caffael yr Undeb Ewropeaidd, y mae disgwyl iddynt gael eu cyflwyno o 2015 ymlaen, a allai fod o fudd i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, yn cael eu gweithredu'n gadarn ac yn llawn. Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai cylch gwaith Gwerth Cymru, sef cangen gaffael Llywodraeth Cymru, yw gwella arferion caffael cyhoeddus a'r canlyniadau sy'n deillio o'r £4.3 biliwn a gaiff ei wario bob blwyddyn. Mae rheolau caffael newydd yr Undeb Ewropeaidd yn debygol o gynnwys rhai darpariaethau a allai gynyddu'r cyfleoedd i gwmnïau cydweithredol neu gydfuddiannol, a bydd Gwerth Cymru yn ystyried sut i wneud y gorau o'r cyfleoedd hynny.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y rhan fwyaf o fusnesau a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru yn fusnesau bach a chanolig eu maint, ac mae'n bosibl weithiau na fydd ganddynt y capasiti i gynnig yn annibynnol am gontractau unigol a chontractau mwy o faint sy'n gofyn am gydweithio. Mae cynnig am waith a'i gyflawni fel consortiwm yn ffordd ddelfrydol i fusnesau gadw eu hannibyniaeth ond cynyddu eu maint a'u gallu i ymdrin â darnau mwy o waith.

115 J. McClelland (2012) Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: http://cymru.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/120917mcclellandreviewfullfinalcy.pdf
116 Cartrefi Cymunedol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig
117 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig
118 Fforwm Gofal Cymru - tystiolaeth lafar
119 J. McClelland (2012) Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: http://cymru.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/120917mcclellandreviewfullfinalcy.pdf

Mae'r Comisiwn yn croesawu'r Canllaw Ceisiadau ar y Cyd a gyhoeddwyd yn 2013, sy'n rhoi cyngor ymarferol ynghylch y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno cynnig fel consortiwm, ar gyfer aelodau posibl o gonsortiwm a'r sector cyhoeddus sy'n hysbysebu contractau. Fe'i cynhyrchwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac mae'n cynnwys pecyn cynhwysfawr o adnoddau ymarferol i helpu prynwyr a chyflenwyr i adnabod y manteision a rheoli'r risgiau dan sylw.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu rhywfaint o hyfforddiant ar gaffael i'w gynnwys yn y gyfres o gyrsiau a gynigir gan gontract hyfforddiant Gwerth Cymru, a chynnal rhai cynlluniau peilot ar gaffael sy'n ffafriol i gonsortia er mwyn rhoi'r canllawiau ar brawf a chofnodi'r gwersi a ddysgwyd, gan weithio hefyd gyda phartneriaid i ddatblygu deunydd hyfforddi ar gyfer darpar aelodau o gonsortiwm.

At hynny, roedd y Comisiwn o'r farn y dylid gwneud yn fawr o'r manteision sy'n gysylltiedig â defnyddio dull ardal gyfan o gaffael. Nodwyd effaith y dull gweithredu a ddefnyddiwyd gan Evergreen Co-operatives yn Cleveland, Ohio lle'r oedd cyrff cyhoeddus yn dod at ei gilydd i ddefnyddio caffael i feithrin a gwella cwmnïau cydweithredol, gan greu swyddi a darparu gwerth am arian hefyd (gweler Ffigur 7). Mae'r Comisiwn yn pwyso am dreialu prosiect tebyg yng Nghymru.

Ffigur 7: Evergreen Co-operatives, Cleveland, Ohio, UDA

Lansiwyd menter Evergreen Co-operatives yn 2008 gan sawl sefydliad a leolwyd yn Cleveland, Ohio i greu "cyfoeth cymunedol" drwy greu swyddi cyflog byw mewn chwe chymuned incwm isel a difreintiedig.

Mae'r fenter yn cryfhau'r economi leol o'r gwaelod i fyny yn hytrach na dibynnu ar gyfoeth yn treiddio o lefydd eraill neu gynnig grantiau'r llywodraeth i gwmnïau er mwyn iddynt ymsefydlu yn yr ardal. Mae'n cynyddu perchnogaeth dros asedau, mae'n cadw swyddi a chyfoeth yn yr ardal, mae'n sicrhau sefydlogrwydd economaidd ac mae'n cryfhau'r sylfaen drethi.

Mae dull Evergreen o weithio yn seiliedig ar ddenu peth o wariant sefydliadau lleol (sy'n $3 biliwn) a'i fuddsoddi yn yr ardal, gan greu rhwydwaith o fentrau cydweithredol cymunedol i fodloni anghenion lleol ac anghenion y sefydliadau a sicrhau swyddi sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Yn ganolog i hyn oll mae ehangu sectorau o'r economi a chynyddu'r busnesau cydweithredol.

Nod y fenter yw helpu i greu 10 menter gydweithredol newydd sy'n cyflogi 500 o bobl yn y tymor canolig. Heddiw, mae Evergreen Co-operatives yn cynnwys:

- Evergreen Co-operative Laundry
- Evergreen Energy Solutions
- Green City Growers

Bydd y mentrau cydweithredol a sefydlir yn rhoi 10% o'u helw tuag at fenter Evergreen Co-operatives i'w ailfuddsoddi er mwyn creu mentrau cydweithredol newydd.

*Dyfynnwyd o gyhoeddiad Canolfan Cydweithredol Cymru (2012)* ***Mentrau Cydweithredol Cymunedol yng Nghymru – Pobl gyffredin yn gwneud pethau anghyffredin***.

Nododd y Comisiwn hefyd fod potensial sylweddol i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol gaffael oddi wrth ei gilydd. Oherwydd bod y sector yng Nghymru yn dameidiog, credwn y gellid gwneud mwy i annog a chefnogi mentrau cydweithredol, cydfuddiannol a chymdeithasol i fasnachu â'i gilydd.

### Argymhellion

Roedd y Comisiwn o'r farn bod dulliau anhyblyg o ymdrin â chaffael cyhoeddus a diffyg datblygu yng nghyswllt y gadwyn gyflenwi gydweithredol a chydfuddiannol yn cyfyngu ar fynediad i farchnadoedd pwysig. Mae'n argymell:

14. Y dylid datblygu gwybodaeth arbenigol am gaffael cydweithredol yn Gwerth Cymru, a'i phrif ffrydio i arferion caffael ledled Cymru.
15. Y dylid cynnwys cyfeiriad penodol at gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn holl ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gaffael.
16. Y dylid ymdrechu'n ddiwyd i weithredu rheolau caffael diwygiedig yr Undeb Ewropeaidd a allai fod o fudd i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol maes o law.
17. Y dylai Llywodraeth Cymru a'r mudiad cydweithredol a chydfuddiannol ddatblygu'r cadwynau cyflenwi cydweithredol a chydfuddiannol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau i ddefnyddwyr a gwasanaethau preifat, er mwyn agor marchnadoedd newydd ar gyfer cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, gan ddefnyddio'r Canllaw Ceisiadau ar y Cyd newydd.
18. Y dylid sefydlu prosiect peilot i ddangos potensial caffael cyhoeddus i ddatblygu cwmnïau cydweithredol, tebyg i brosiect Evergreen Co-operatives.

## Gwybodaeth ac arloesi

Mae gwybodaeth ac arloesi'n hanfodol i lwyddiant mentrau cydweithredol yn y tymor hir. Yng nghyswllt gwybodaeth ac arbenigedd y mae cystadleuaeth yn digwydd – nid yw cystadleuaeth sydd wedi'i seilio ar bris yn unig yn fuddiol i gwmnïau cydweithredol nac i economi Cymru. Nododd y Comisiwn fod gwybodaeth ac arloesi wedi bod yn sail i lwyddiant cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn Mondragon, ac mewn mannau eraill yn Sbaen a'r Eidal, er bod arloesi wedi'i gefnogi mewn gwahanol ffyrdd.

Cymysg fu hanes Cymru yn gyffredinol o ran arloesi, wrth iddi berfformio'n gymharol wael yng nghyswllt dulliau confensiynol o fesur arloesi, megis gwaith ymchwil a datblygu, a pherfformio'n well mewn meysydd eraill megis arloesi ym maes addysg uwch[120]. Prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch arloesi yn y sector cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Sylwodd y Comisiwn ar y diffyg gwybodaeth am y sector cydweithredol a chydfuddiannol, sy'n golygu bod hyd yn oed mater syml megis nifer y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol sydd yng Nghymru yn fwy cymhleth na'r disgwyl. Caiff yr anawsterau eu dwysáu gan ddiffyg gwybodaeth am berfformiad a rhagolygon busnesau. Nid yw cwmnïau cydweithredol yn gallu meincnodi eu perfformiad yn erbyn cwmnïau eraill, dysgu o arfer gorau a deall y risgiau a'r rhagolygon sy'n eu hwynebu.

120 Llywodraeth Cymru (2013) Arloesi Cymru. Ar gael ar: http://cymru.gov.uk/docs/det/policy/130307innovationreviewcy.pdf

Mae strategaeth arloesi Llywodraeth Cymru, sef Arloesi Cymru, yn nodi bod cydweithio'n hanfodol i lwyddiant, er ei bod yn cyfeirio'n bennaf at gydweithio yng nghyswllt cyllid ac nad yw'n cyfeirio at y modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol. Mae ei sectorau â blaenoriaeth, sef gwyddorau bywyd ac iechyd; ynni carbon isel a'r amgylchedd; peirianneg a deunyddiau uwch; a TGCh a'r economi ddigidol, yn cynnwys sawl sector y mae'r Comisiwn wedi nodi bod potensial i gwmnïau cydweithredol dyfu ynddynt a lle mae mentrau cydweithredol eisoes yn ymddangos.

Mewn gwlad fach a hinsawdd economaidd anodd, daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen i strategaeth arloesi Cymru groesawu a hyrwyddo'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol, er mwyn i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol presennol a newydd yn y sectorau â blaenoriaeth allu elwa o gyllid ac arbenigedd prif ffrwd, ochr yn ochr â mathau eraill o fusnesau bach a chanolig eu maint.

Mae angen cymorth i arloesi hefyd ar sectorau sydd y tu allan i feysydd â blaenoriaeth Arloesi Cymru, boed hynny o ran datblygiadau newydd ym maes manwerthu neu o ran modelau newydd o ofal cymdeithasol. Y ffordd fwyaf effeithlon efallai o ddarparu'r cymorth hwn fyddai ochr yn ochr â chyngor arbenigol i sectorau penodol, er mwyn iddo gyrraedd y cwmnïau cydweithredol eu hunain a meithrin cydweithio rhyngddyn nhw a chydweithio ag arloeswyr mewn mannau eraill, e.e. ym maes addysg uwch. Gellid galw'r gwaith hwn yn 'ganolfan arloesi gydweithredol', er bod y swyddogaeth yn bwysicach na'r enw.

### Argymhellion

Mae'r Comisiwn yn argymell:

19. Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaeth Arloesi Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn llawn, yn cymryd camau gweithredol i gynnwys cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn ei gwaith, ac yn hybu'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol wrth ddatblygu mentrau newydd.
20. Y dylid cynnwys capasiti i arloesi a lledaenu gwybodaeth yn y cymorth arbenigol i sectorau, a ddarperir i gwmnïau cydweithredol.

## Rhwydweithiau ac eiriolaeth

Cydnabu'r Comisiwn waith rhagorol nifer o gyrff sy'n cynrychioli cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Fodd bynnag, cyfyngedig iawn yw capasiti'r rhan fwyaf ohonynt, ac o ganlyniad mae llais y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru yn weddol fach ac yn dameidiog. Mae'n anodd dadlau dros egwyddorion cydweithredol a datblygu'r capasiti strategol sy'n ofynnol i symud yr agenda gydweithredol yn ei blaen.

Mae'r Comisiwn o'r farn bod angen cryfhau'r mudiad cydweithredol a chydfuddiannol er mwyn gwneud y gorau o sector sy'n gymharol fach o hyd. Mae'r Comisiwn yn credu mai cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu a chynrychioli'r sector. Roedd y Comisiwn yn edmygu'r brwdfrydedd a'r egni a oedd yn amlwg yn y modd y mae rhai cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, megis John Lewis[121], yn hyrwyddo eu model busnes i'w gweithwyr a'u cwsmeriaid fel ei gilydd.

121 John Lewis Partnership, Tystiolaeth lafar

Roedd y 'gwahaniaeth cydweithredol' i'w weld yn amlwg yng nghanfyddiadau ein hymchwil a ddangosodd y byddai pob cwmni cydweithredol yn barod i helpu cwmnïau cydweithredol eraill i weithredu egwyddorion cydweithredol trwy drefniadau cyfeillio[122] – mae'n anodd dychmygu ymateb o'r fath gan fusnesau prif ffrwd.

Rhaid cydnabod bod y sector yng Nghymru yn gymharol fach o hyd, a'r her yw manteisio ar egni a brwdfrydedd y sector a'u meithrin. Yr her y mae'r Comisiwn yn ei rhoi i'r mudiad cydweithredol yw cynyddu'r cydweithio rhwng sefydliadau a mentrau cydweithredol er mwyn codi eu proffil, cynyddu eu dylanwad a meithrin capasiti strategol.

## Argymhellion

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y capasiti cyfyngedig sydd yng Nghymru i ddatblygu polisi a strategaeth ar ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, hybu arfer gorau, hwyluso rhwydweithio a chynyddu dealltwriaeth o'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol. Er mwyn sicrhau cynnydd mewn gwybodaeth, gwaith rhwydweithio ac eiriolaeth, mae'n argymell:

21. Y dylid datblygu capasiti ar gyfer ymchwil, strategaeth a pholisi ar ehangu'r economi gydweithredol a chydfuddiannol, a fydd yn ffynhonnell o wybodaeth economaidd ryngwladol ac a fydd yn darparu arweiniad strategol i'r mudiad yng Nghymru.
22. Y dylid creu fforwm 'arweinwyr' sy'n cynnwys entrepreneuriaid allweddol yn y maes cydweithredol i gynghori Gweinidogion Cymru a chynrychioli'r sector fel y bo'n briodol.
23. Y dylai sefydliadau sy'n datblygu cwmnïau cydweithredol a chyrff sy'n cynrychioli cwmnïau cydweithredol hwyluso gwaith rhwydweithio a chodi ymwybyddiaeth.
24. Y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth amlwg i fodelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol yn neddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a chodau ymarfer Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r gofyniad gorfodol sydd arni i ystyried datblygu cynaliadwy.

122 L. Burnett (2013) Co-operatives and Mutuals in Wales: Adherence to the Recognised Principles of the Co-operative Movement. Ymchwil ar ran y Comisiwn

# 5. Cyflawni A Meincnodau

Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd ei argymhellion, gyda'i gilydd, yn darparu buddsoddiad sylweddol a chynhwysfawr ym mhob agwedd ar ddatblygu a chefnogi cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol a mentrau eraill sydd dan berchnogaeth gymdeithasol yng Nghymru. Bydd sicrhau y caiff y rhaglen hon ei chyflawni'n effeithiol yn hanfodol.

## Cyllid

Ym mhob agwedd ar ei waith mae'r Comisiwn wedi cydnabod y cyfyngiadau llym sydd ar wariant cyhoeddus, a pharhad y cyfyngiadau hynny yn y tymor hir. Mae llawer o'n hargymhellion yn niwtral o ran cost, gan eu bod yn golygu prif ffrydio gwaith a wneir ar gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, e.e. yn Gwerth Cymru, neu addasu neu 'blygu' gwariant presennol, e.e. er mwyn cefnogi cymwysterau lefel uwch ym maes cydweithredu.

Fodd bynnag, mae rhai o'r argymhellion yn gofyn am fuddsoddiad cyhoeddus. Mae'r Comisiwn o'r farn bod gwariant cyhoeddus – gan Lywodraeth Cymru, cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a chyrff eraill – ar greu hinsawdd ac amgylchedd lle gall cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ffynnu, yn fuddsoddiad call. Mae gwario ar ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn ffordd sicr o fodloni blaenoriaethau craidd Llywodraeth Cymru, sef swyddi, addysg ac iechyd, a mynd i'r afael â thlodi.

Mae'r rownd nesaf o gyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn darparu cyfle i lansio'r math o newid sylweddol y mae ei angen. Mae'r Comisiwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio sicrhau cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i roi menter integredig ar waith a fydd yn llwyfan ar gyfer datblygu'r sector cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru. Dylai'r fenter hon:

- Ddarparu gwasanaeth integredig sy'n cynnwys cyllid arferol a chyllid datblygu arbenigol, cymorth busnes, gwaith datblygu rhagweithiol, gweithgareddau arloesi ac ymwybyddiaeth.
- Bod yn hyblyg er mwyn gallu gweithredu ar sail sectorau, gan fanteisio ar rwydweithiau a phrofiad arweinwyr yn y sectorau hynny.
- Gallu cynnig cymorth i gyrff cyhoeddus sy'n ystyried modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau drwy ddulliau cydfuddiannol.
- Hybu cydweithio, gan ddod ag asiantaethau allweddol ynghyd i weithredu'r fenter – asiantaethau megis cyrff cyllido ac arbenigwyr yn y sector, e.e. Cartrefi Cymunedol Cymru, Sefydliad Plunkett a Chanolfan Cydweithredol Cymru.
  - Bod ar wahân i Busnes Cymru ond gan weithio mewn partneriaeth ag ef er mwyn sicrhau dulliau effeithiol o groesgyfeirio.
  - Bod yn ddigon eang i gynnwys cymorth i fusnesau sy'n bodoli eisoes droi'n fusnes cydweithredol neu'n fusnes dan berchnogaeth y gweithwyr yn rhan o gynllun olyniaeth.
  - Cael ei hymestyn i gynnwys cymorth i fentrau cymdeithasol, yn ogystal â chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, sydd â mwy o bethau'n gyffredin â chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol na busnesau traddodiadol.

- Bod yn gynaliadwy erbyn i gyllid yr Undeb Ewropeaidd ddod i ben yn 2020, gan ddarparu gwaddol parhaus ar gyfer economi a chymunedau Cymru. Gallai hynny gynnwys cyllid buddsoddi newydd gan y sector ei hun, benthyciadau rhwng cymheiriaid, a gwasanaethau sy'n talu ffïoedd.

## Gweithredu

Mae'r Comisiwn o'r farn bendant nad oes modd datblygu cwmnïau cydweithredol yn llwyddiannus o'r brig i lawr ar orchymyn y wladwriaeth. Mae angen i egwyddorion cydweithredol gael eu deall gan y bobl sy'n ymwneud â datblygu cwmnïau cydweithredol, ac mae angen iddynt gael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar ddulliau gweithredu'r cwmnïau – fel yr ydym wedi nodi'n flaenorol, rhaid i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol fod yn fwy na ffurf gyfreithiol yn unig.

Rydym felly'n cynnig y dylai ein rhaglen datblygu cwmnïau cydweithredol gael ei hybu mewn modd gwahanol i fentrau confensiynol a arweinir gan y llywodraeth. Rydym yn argymell dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydweithio, sy'n dod â gwahanol sefydliadau a ffynonellau o gyllid ynghyd i gyflawni nod cyffredin. Er bod cyrff cyhoeddus yn gallu helpu a chynorthwyo'r broses o ddatblygu cwmnïau cydweithredol, ac yn wir bod yn rhaid iddynt wneud hynny, rhaid iddynt hefyd gymryd camau rhagweithiol i gynnwys cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol eu hunain.

Rhaid mai rôl Llywodraeth Cymru yw helpu i gryfhau arweinyddiaeth strategol – gan ddarparu rhywfaint o gyllid i gefnogi seilwaith, ysgogi a galluogi mentrau newydd, annog ethos cydweithredol yn gryf mewn gwasanaethau cyhoeddus, boed ym maes addysg neu lywodraeth leol, neu, fel sy'n digwydd eisoes, ym maes gofal cymdeithasol, a hybu cydweithredu ei hun drwy bolisi cyhoeddus.

Rydym yn rhagweld felly y bydd y rhaglen yn cael ei gweithredu, yn bennaf, gan y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol eu hunain neu gan sefydliadau sy'n amlwg yn gefnogol i egwyddorion a gwerthoedd cydweithredol. Yn wir, gallai sefydliadau sy'n bodoli eisoes sefydlu cwmni cydweithredol eilaidd i fod yn gorff cyfryngol i reoli'r modd y caiff y rhaglen gyffredinol ei gweithredu. Rydym yn pwysleisio nad pwyllgor arall eto fyddai'r corff hwn, ond endid a fyddai dan berchnogaeth gydweithredol ac a fyddai'n canolbwyntio ar gamau gweithredu.

## Meincnodau

Gofynnwyd i'r Comisiwn "glustnodi a sefydlu meincnodau". Ni fu'r dasg hon yn un hawdd, o gofio'r prinder gwybodaeth am y sector, ac nid oes gennym ddewis ond argymell y dylid:

25. Gwneud rhagor o waith, yn rhan o swyddogaeth ehangach sy'n ymwneud â gwybodaeth, er mwyn datblygu meincnodau mwy cadarn.

Ceir dau faes lle gellir defnyddio gwaith meincnodi. Mae'r cyntaf yn mesur y cyfraniad cyffredinol y mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn ei wneud i economi Cymru; mae'r ail yn mesur perfformiad cyffredinol cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol unigol.

## Perfformiad economaidd

Mae monitro datblygiad y sector cydweithredol a chydfuddiannol yn hanfodol, nid yn unig er mwyn asesu effaith buddsoddi ond hefyd er mwyn rhybuddio'n gynnar ynghylch unrhyw feysydd a allai fod yn peri anhawster. Mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylid defnyddio chwe dangosydd sylfaenol (gweler Tabl 4) sydd ar hyn o bryd yn sail i adroddiadau blynyddol Co-operatives UK ynghylch yr economi gydweithredol. Nid yw pob dangosydd ar gael ar hyn o bryd i Gymru, ac nid ydynt ar gael ar hyn o bryd ar sail sector penodol neu fath o gwmni cydweithredol. Yn ogystal, mae'r data presennol yn cynnwys y cwmnïau cydweithredol sy'n aelodau o Co-operatives UK yn unig – nid yw llawer o gwmnïau cydweithredol yn aelodau o'r sefydliad hwnnw. Mae angen mynd i'r afael â'r bylchau er mwyn gallu mesur datblygiad y sector yn effeithiol.

Tabl 4: Mesurau perfformiad economaidd

<table>
<tr><th>Dangosydd</th><th>Is-ddangosydd</th><th>Y sefyllfa bresennol</th></tr>
<tr><td>Nifer y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol sydd yng Nghymru</td><td rowspan="6">Dadansoddwyd yn ôl<br>a. math o gwmni cydweithredol<br>b. sector economaidd</td><td>446</td></tr>
<tr><td>Trosiant cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol:<br>• Cyfanswm<br>• Fel canran o gyfanswm trosiant busnesau yng Nghymru</td><td>£1.54 biliwn<br>1.6%</td></tr>
<tr><td>Nifer yr aelodau</td><td>727,416</td></tr>
<tr><td>Elw cyn treth:<br>• Cyfanswm<br>• Fel canran o'r trosiant</td><td>Ddim ar gael</td></tr>
<tr><td>Cronfeydd y cyfranddeiliaid</td><td>Ddim ar gael</td></tr>
<tr><td>Nifer y gweithwyr</td><td>11,060</td></tr>
</table>

Ffynhonnell: Canolfan Cydweithredol Cymru, http://www.walescooperative.org/one-four-welsh-population-member-co-operative darllenwyd ar 17 Tachwedd 2013

## Perfformiad cwmnïau cydweithredol

Mae Co-operatives UK hefyd wedi datblygu dangosyddion ar gyfer perfformiad cwmnïau cydweithredol, y gall cwmnïau cydweithredol unigol eu defnyddio i'w hasesu eu hunain. Maent yn cynnwys mesurau perfformiad ariannol a mesurau perfformiad nad ydynt yn ariannol[123]. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai'r mesurau hyn gael eu mabwysiadu a'u gweithredu yng Nghymru gan bob math o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Dylai'r canlyniadau gael eu casglu'n rheolaidd er mwyn monitro perfformiad y sector cyfan yn ogystal â gweld a oes angen ymyrryd.

123 Co-operatives UK (2013) Simply Performance. Ar gael ar: http://www.uk.coop/documents/simply-performance

# Atodiad 1 Canllaw i fodelau perchnogaeth gydweithredol a chydfuddiannol[124]

Mae'r atodiad hwn yn Saesneg am mai dyfyniad yw'r testun o ddogfen sydd ar gael yn Saesneg yn unig.

## What is a mutual?

The term "mutual" is used as an umbrella term for several different ownership models. Mutuals are often described as being characterised by the extent to which members have democratic control of the business and share in its profits, and contrasted with 'investor controlled' companies.

However, this is a misleading distinction, because all limited companies operate for the benefit of their members – the shareholders who invest in a company limited by shares, or the guarantors of a company limited by guarantee – and these members are involved in control of the business whether directly, or through scrutiny of the actions of the directors, or simply by buying and selling shares in response to the company's performance.

The distinguishing characteristic of a mutual is that the organisation is owned by, and run for, the benefit of its members, who are actively and directly involved in the business – whether its employees, suppliers, or the community or consumers it serves, rather than being owned and controlled by outside investors.

## Legal structures for mutual ownership

It is important to note that legal structure is not the same as ownership model – mutuals can be based on a variety of different legal structures.

For example, the flexibility of the limited company structure means it is possible for companies to operate a mutual ownership model. But it is also true that partnerships and limited liability partnerships are essentially mutual – the partners own and run the business for their own benefit.

There is also an incorporated legal structure which is specifically mutual: the industrial and provident society. There are two types of these: Co-operative Societies and Community Benefit Societies (BenComms).

Co-operative Societies operate for the benefit of their members, and distribute any surplus not reinvested in the business to those members. BenComms conduct business for the benefit of their community. Any profits are not distributed among members, but returned to the community. They therefore provide a legal structure designed for social enterprise.

Industrial and provident societies always have a mutual ownership structure. The term "Co-operatives" describes a wider movement of mutual enterprises, which includes all Co-operative Societies and Community Benefits Societies. However, not all co-operatives use these legal structures – many are in fact limited companies. For more information about co-operatives, see below.

124 Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, A Guide to Mutual Ownership Models, Tachwedd 2011 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/31678/11-1401-guide-mutual-ownership-models.pdf

## Employee-owned companies

If a limited company is more than fifty percent owned by its employees it is usually described as 'employee-owned'. Where employees hold a significant stake in a company, but less than fifty percent, this is often referred to as co-ownership.

There are two main types of employee ownership:

- Direct employee ownership – where employees become individual shareholders of shares in their company
- Indirect employee ownership – where shares are held collectively on behalf of employees, often through an employee trust.

Many companies, including many large public companies (listed or otherwise), operate employee share ownership plans – using one or more tax advantaged share schemes – to allow either all or some of their staff to own shares in the company they work for.

Indirect employee ownership via an employee trust is a commonly used model by employee-owned businesses. It is a way of enshrining employee ownership in the business for the long term via the rules of the trust.

It is also possible to combine direct and indirect ownership – a combination of individual and collective share ownership.

## Co-operatives

The term 'co-operative' is defined by the International Co-operative Alliance as "an autonomous association of persons united voluntarily to meet their common economic, social and cultural needs and aspirations through jointly owned and democratically controlled enterprise".

To be a co-operative, the enterprise must reflect the following co-operative values set out by the International Co-operative Alliance, namely: self help, self responsibility, democracy, equality, equity, and solidarity.

Co-operatives must also reflect four ethical values: honesty, openness, social responsibility and caring for others. They must also subscribe to the following set of co-operative principles: voluntary and open membership, democratic member control, member economic participation, autonomy and independence, provision of education, training and information, co-operation among co-operatives, and concern for community.

There are a number of different types of co-operative, these include:

- Worker co-operatives – these effectively operate a system of 100% employee ownership
- Consumer co-operatives – where members are the customers of the business
- Producer co-operatives – where members are independent producers who form a consortium, often to reduce fixed costs such as distribution or marketing
- Community co-operatives– drawing their members from a local community (or a community of people with a common interest)

Some co-operatives may of course have more than one membership type. The term 'co-operative' does not itself refer to a specific legal form. Many co-operatives are industrial and provident societies (either co-operative societies or community benefit societies), but it is not necessary to use this legal form to be a co-operative: many co-operatives are in fact companies – usually limited by guarantee.

Because of the values and principles of the co-operative movement, many co-operatives are social enterprises – that is they have primarily social objectives and reinvest or use the majority of their profits for those objectives. Such enterprises may use a standard co-operative society or company legal structure. Alternatively they may adopt a legal structure designed for social enterprise – either the community interest company (CIC) or the community benefit society.